De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

GIG CYMRU
NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a bod yn Agored i Niwed o ran Tai - Adroddiad a Gwerthusiad o Hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer Tai

5



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a bod yn Agored i Niwed o ran Tai - Adroddiad a Gwerthusiad o Hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer Tai

Ebrill 2018

## Awduron

**Charlotte Grey[1], Louise Woodfine[1]**

[1]Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Diolchiadau

Ariannwyd y gwerthusiad hwn trwy Gronfa Arloesi Heddlu y Swyddfa Gartref a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru Alun Michael (Cyfeirnod 2016-039). Hoffem ddiolch i'r holl gyfranogwyr a wirfoddolodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn; Charlotte Waite (Canolfan Cymorth ACE, Cymru Well), Bal Gill (cydlynydd ACE, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru) a Samantha Howells (Tai Siarter) am ddatblygu a chyflwyno'r Hyfforddiant wedi'i Lywio gan ACE ar gyfer Tai; Emma Reed (Barnardo's Cymru) a Stephanie Sibanda (NSPCC) ar gyfer datblygu'r Dull wedi'i Lywio gan ACE at Blismona Pobl sy'n Agored i Niwed; a holl aelodau'r grŵp prosiect amlasiantaeth am eu cyfraniadau. Yn benodol, Michelle Cooper (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu), Matthew Kennedy a Natalie Farr (CIH Cymru), Carly Dix (CHC), Kerry Morgan a Martin Ridgeway (BCBC) a Jon Stonehouse (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Hoffem ddiolch hefyd i Dr Alisha Davies (Pennaeth Ymchwil a Datblygiad, Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd y Cyhoedd Cymru), Dr Sumina Azam (Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru), a Janine Roderick (Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, rôl ar y cyd) am eu sylwadau ar ddrafftiau cynharach, Dr Benjamin Gray am ei gefnogaeth ddadansoddol, a Christopher Davies ac Emma Barton (Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol, Iechyd y Cyhoedd Cymru) am eu cefnogaeth wrth gynhyrchu'r adroddiad. Yn olaf, hoffem ddiolch i Hayley yn Jenney Creative am ddylunio'r adroddiad.

# Acronymau a Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad

**ACE** — Mae ACEs yn brofiadau ingol sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. camdriniaeth) neu'n effeithio ar yr amgylchedd lle maent yn byw (e.e. cael eu magu mewn tŷ lle mae trais yn y cartref).

Mae ACEs yn cynnwys cam-drin plant (corfforol, rhywiol neu emosiynol); esgeulustod (emosiynol neu gorfforol); chwalu teuluoedd; amlygiad i drais yn y cartref; neu fyw mewn cartref sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, neu lle mae rhywun yn y ddalfa.

**ASB** — Ymddygiad gwrthgymdeithasol

**BCBC** — Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**CAB** — Cyngor ar Bopeth

**CAMHS** — Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

**DV** — Trais yn y cartref

**Early Help** — Gwasanaethau i ddarparu cymorth cyn gynted â phosibl pan ddaw problem i'r amlwg, i gefnogi plant a theuluoedd, gan ddefnyddio dull integredig ac aml-asiantaeth

**HA** — Cymdeithas Tai (RSL hefyd)

**MAPPA** — Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd

**MARAC** — Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth

**PoVA** — Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

**RSL** — Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (hefyd HA)

**TIC** — Gofal wedi'i lywio gan drawma (gweler adran 1.5 am ddiffiniad)

**V2C** — Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir

**Vulnerability** — Rydym yn diffinio person fel un sy'n agored i niwed gan ddefnyddio diffiniad Heddlu De Cymru sef: Mae person yn agored i niwed os na fyddant, o ganlyniad i'w sefyllfa neu amgylchiadau, yn gallu gofalu amdanynt eu hunain neu ddiogelu eu hunain rhag niwed neu gamfanteisio. Ond rydym yn ehangu hyn yng nghyd-destun yr adroddiad hwn i gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bobl sydd wedi profi ACEs (trawma) yn ystod plentyndod fel achos dros fod yn agored i niwed fel oedolyn; analluu i gael mynediad at wasanaethau a gweithredu'n dda heb gymorth ychwanegol fel effaith bod yn agored i niwed, a'r risg o ddigartrefedd ac iechyd a llesiant gwael fel canlyniad bod yn agored i niwed.

**WASPI** — Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol

**WWHA** — Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 3

1. Cefndir ........ 5
- 1.1 Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) a thai........ 5
- 1.2 Tai a phobl sy'n agored i niwed yng Nghymru ........ 6
- 1.3 Tai cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ........ 7
- 1.4 Tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr - poblogaeth........ 7
- 1.5 Model hyfforddi wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai ........ 9
- 1.6 Datblygu prosiect peilot ACEs mewn Tai ........ 9
- 1.7 Crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth........ 9
- 1.8 Cynnwys pecyn hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ........ 10

2. Gwerthuso ........ 13
- 2.1 Dulliau ........ 13
  - 2.1.1 Holiadur cyn ac ar ôl hyfforddiant: Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai........ 13
  - 2.1.2 Cyfweliadau ôl-hyfforddiant: Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai ........ 14
  - 2.1.3 Dadansoddi data ........ 14
- 2.2 Canlyniadau ........ 15
  - 2.2.1 Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai - holiadur ac Artic........ 15
  - 2.2.2 Cyfweliadau yn dilyn y diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai ........ 20

3. Trafodaeth ac argymhellion ........ 26

Cyfeiriadau........ 29

Atodiad A: Agweddau Cymru gyfan tuag at fod yn agored i niwed mewn perthynas â thai ........ 30

Atodiad B ACEs ac Adolygiad o Dystiolaeth ar Ddigartrefedd ........ 45

# Crynodeb Gweithredol

Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) arwain at fod yn agored i niwed mewn oedolion, effeithio ar iechyd a chyfleoedd bywyd, a chyfrannu at ganlyniadau tai anffafriol. Mae digartrefedd yn broblem sy'n tyfu mewn cymdeithas, a achosir gan gyfuniad o ffactorau gan gynnwys diffyg fforddiadwyedd, anfantais bywyd, a digwyddiadau bywyd trawmatig, gan gynnwys y rhai a brofwyd yn ystod plentyndod cynnar. Mae tai o ansawdd da yn hanfodol i iechyd a llesiant da, mae cael cartref yn angen sylfaenol, a dyma lle mae oedolion a phlant yn treulio cyfran helaeth o'u hamser.

Mae'r sector Tai mewn sefyllfa unigryw i nodi pobl sy'n agored i niwed ac ACEs yn gynnar, a bod yn gyswllt cryf a galluogol rhwng gwasanaethau cefnogi, asiantaethau a thenantiaid sy'n agored i niwed, oherwydd y berthynas hirdymor a'r lefel uchel o ymgysylltiad sy'n bodoli rhwng tenantiaid a'u landlordiaid. Mae'r sector Tai eisoes yn chwarae rôl gref wrth gefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed gyda'r nod o gynnal y tenantiaethau ac atal argyfwng, a chysylltu â gwasanaethau cefnogi ac asiantaethau eraill pan nodir angen. Mae hyn yn gosod y sector Tai a'i staff mewn sefyllfa arbennig i allu adnabod ac ymateb i ACEs cyn gynted â phosibl ac yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol. Mae'r sector Tai yn rhan hanfodol o ymateb systemau-gyfan i ACEs ar draws cwrs bywyd, oherwydd eu mynediad arbennig i unigolion sy'n agored i niwed a'u cartrefi, a'u perthynas â nhw; ac mae ganddo gyfle unigryw i gyfrannu at yr uchelgais ehangach o ran torri'r cylch ACEs rhwng cenedlaethau, gan leihau'r risg o ganlyniadau gwael, megis trosedd, trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol a digartrefedd.

Mae gan ddull ataliol wedi'i lywio gan ACE at denantiaid sy'n agored i niwed y potensial i atal y bygythiad o droi allan a digartrefedd, trwy ddeall mwy am drawma a'i effeithiau; ond mae prinder gwybodaeth am yr hyn y dylai dull wedi'i lywio gan ACE tuag at dai fod. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn, ceisiodd y rhaglen hon ddatblygu *Hyfforddiant wedi'i Lywio gan ACE ar gyfer Tai* sy'n anelu at wella'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y sector Tai ac ategu dulliau wedi'u llywio gan ACE cyfatebol sy'n cael eu treialu yn y sectorau heddlu ac addysg.

Datblygwyd yr adnodd *Hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer Tai* trwy ddull amlasiantaeth trwy ymgynghori â chynrychiolwyr tai o wahanol ddaliadaethau ledled Cymru, a'i nod yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu hyder wrth ymateb i ACEs a phobl sy'n agored i niwed yn y sector Tai. Treialwyd yr hyfforddiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Hydref 2017 yn y sector Tai cymdeithasol, awdurdod lleol, a gwasanaethau cymorth. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae 14% o dai yn dai cymdeithasol, ac o'r bobl sy'n dod at yr awdurdod lleol gydag anghenion tai, mae un rhan o bump yn cael eu hasesu fel rhai sy'n agored i niwed ac angen arnynt rywfaint o gymorth. Nid yw gwybodaeth am ACEs yn cael ei chasglu'n rheolaidd gan y sector hwn.

## Canfyddiadau allweddol: Darparu hyfforddiant ACEs

- Llwyddodd yr hyfforddiant fel cwrs hyfforddiant sylfaen i newid agweddau a chynyddu hyder wrth ymateb i fod yn agored i niwed mewn tenantiaid, trwy fabwysiadu dull wedi'i lywio gan drawma at ACEs. Mae'r hyfforddiant yn galluogi staff ar draws pob rôl yn y sector Tai i gynyddu ymwybyddiaeth o ACEs, gan adnabod yr effaith sydd gan ACEs ar fod yn agored i niwed a chwrs bywyd, a chynyddu dealltwriaeth o sut y gall dull wedi'i lywio gan drawma helpu.
- Gellid gwella'r hyfforddiant ymhellach trwy edrych yn fanylach ar ba gymwysiadau ymarferol y gellir eu cymryd i ymateb i ACEs, megis datblygu sgiliau ymhellach neu opsiynau tactegol.
- Teimlai bron i hanner y cyfranogwyr yn yr hyfforddiant fod rhwystrau ar hyn o bryd i ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg adnoddau, yr amser sydd ei angen i adeiladu perthnasoedd dibynadwy, a diffyg gweithio cydlynus rhwng asiantaethau a gwasanaethau y gellid ei wella.
- Teimlai'r cyfranogwyr fod gwell dealltwriaeth o wahanol rolau swyddi a gwasanaethau wedi eu helpu i ddeall trothwyon gwahanol asiantaethau a gwella cydweithio'n lleol, ac roedd yr hyfforddiant wedi caniatáu i staff edrych ar denantiaid presennol sy'n agored i niwed trwy lens ACE a dull sy'n canolbwyntio ar y person.

## Argymhellion

- Gellir defnyddio'r hyfforddiant naill ai fel adnodd annibynnol, neu fel rhan o becyn hyfforddi wedi'i ehangu, sy'n cynnwys mwy o ffocws ar offer a sgiliau ychwanegol (ee cyfweld ysgogol, datblygu arfer adferol), yn ogystal â mwy o bwyslais ar gynnwys mwy o astudiaethau achos. Dylai'r sector Tai ystyried ymwybyddiaeth ACE fel rhan o'i hyfforddiant craidd sydd ar gael i staff.
- Dylai unrhyw gyflwyno pellach, gan gynnwys cyflwyno i ardaloedd eraill yng Nghymru neu ddeiliadaethau tai, ystyried dulliau o gefnogi unigolion yn well, megis cynnal hyfforddiant ar lefel leol gydag asiantaethau eraill i wella dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau, protocolau a phrosesau lleol, ac argaeledd gwahanol wasanaethau lleol. Dylai hyn hefyd gael ei werthuso i archwilio effaith ymhellach.
- Dylai sefydliadau tai weithio gyda'i gilydd yn lleol a chyda phartneriaid perthnasol (ee cynnal gweithdai ar y cyd neu hyfforddiant ar y cyd rheolaidd) i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'w tenantiaid yn eu hardal, fel y gall staff gyfeirio'n effeithiol a chael yr wybodaeth ddiweddaraf.
- Dylid darparu hyfforddiant cyfochrog hefyd i sectorau eraill (ee ysgolion, yr heddlu) fel bod dull cyson wedi'i lywio gan ACE ar draws pob sector sy'n delio â phobl sy'n agored i niwed.
- Dylai anghenion cymorth galwedigaethol staff sy'n delio â thenantiaid sy'n agored i niwed gael eu hadolygu a'u trin ym mhob sefydliad i atal aildrawmateiddio a straen yn y staff.
- Dylai gwaith pellach gael ei gynnal nawr i adolygu sut i wella gwaith ataliol a chydweithredol rhwng Tai a sectorau eraill. Dylai'r dull hwn gael ei ganolbwyntio ar y person sy'n agored i niwed cyn i argyfwng ddigwydd i atal troi allan, gan gymryd ymagwedd gyfannol nad yw'n trin pryderon unigol ar eu pennau'u hunain, ac ystyried nid yn unig yr unigolyn ond hefyd ei gartref. Mae angen llai o rwystrau i gael mynediad at wasanaethau cymorth a rhannu data, a rhaid gyrru polisi ar lefel genedlaethol.
- Dylid ymchwilio ymhellach ynghylch y camau sydd eu hangen i atal ACEs/lliniaru effaith ACEs, yn enwedig mewn perthynas â chynorthwyo unigolion a theuluoedd i gynnal tenantiaethau ac atal troi allan.

# 1. Cefndir

## 1.1 Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) a thai

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn brofiadau ingol y gall plant fod yn agored iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth dyfu i fyny (Bellis et al., 2015). Mae ACEs yn cynnwys cam-drin plant (corfforol, rhywiol neu emosiynol); esgeulustod (emosiynol neu gorfforol); chwalu teuluoedd; amlygiad i drais yn y cartref; neu fyw mewn cartref sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, neu lle mae rhywun yn y ddalfa (Bellis et al., 2015; Hughes et al., 2018). Mae amlygiad i ACEs yn ystod plentyndod yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd, llesiant ac ymddygiad (Bellis et al., 2015; Ashton et al., 2016a; Ashton et al., 2016b).

Dangosodd astudiaethau ACE Cymru fod 14% o oedolion (18-69 oed) wedi profi pedwar neu fwy o ACEs (cyn 18 oed) (Bellis et al., 2015; Hughes et al., 2018). Roedd unigolion a oedd wedi profi pedwar neu fwy o ACEs 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn person arall yn ystod y 12 mis diwethaf, ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu ar unrhyw adeg yn ystod eu hoes (Bellis et al., 2015). O'i gymharu â dim ACEs, roedd oedolion oedd wedi profi pedwar neu fwy o ACEs mewn perygl sylweddol o salwch meddwl, gyda thros dair gwaith y perygl o adrodd am salwch meddwl cyfredol a chwe gwaith y risg o salwch meddwl yn ystod eu hoes (Hughes et al., 2018).

Gwyddys bod tai annigonol, gan gynnwys digartrefedd, yn effeithio'n andwyol ar iechyd y preswylwyr (Braubach et al., 2011; Marmot et al., 2010). Mae tai yn cynnwys pedwar dimensiwn: strwythur ffisegol, amgylchedd y cartref, seilwaith y gymdogaeth a'r gymuned. Gall pob un ohonynt gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd corfforol, cymdeithasol a meddyliol, a gallai cael cyfuniad o ddau ddimensiwn neu fwy gael mwy o effaith (Braubach et al., 2011). Treulir llawer o amser yn y cartref, a dangosodd astudiaeth fod mamau, tadau a babanod ifanc yn treulio cyfartaledd o 18.4, 14.7 a 19.3 awr yn y cartref bob dydd yn y drefn honno (Farrow a Golding, 1997).

Mae deiliadaeth tai yn gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol gwael; fodd bynnag, mae deiliadaeth tai, tlodi ac iechyd wedi'u cysylltu mor agos â'i gilydd fel y gall gwneud cysylltiadau achosol fod yn heriol iawn (Byrne et al., 2014). Gall pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol brofi canlyniadau iechyd gwaeth na pherchnogion-ddeiliaid; yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fod yr aelodau tlotaf ac yn aml yr aelodau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac yn fwy tebygol o gael eu heithrio'n gymdeithasol a byw mewn cymdogaethau ag amodau gwaeth na'r rheini mewn tai mewn perchen-ddeiliadaeth (Byrne et al., 2014). Mae tai cymdeithasol yn fwy tebygol o gael eu lleoli yn y pumed mwyaf difreintiedig o gymdogaethau, er bod mynediad i dai cymdeithasol yn diogelu fforddiadwyedd a diogelwch deiliadaeth (Marmot et al., 2010). Gall rhentu preifat effeithio ar fforddiadwyedd a diogelwch, ac mae'r rhai sy'n rhentu'n breifat yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi tanwydd (Marmot et al., 2013). Efallai y bydd y rhai sy'n byw ar ymylon perchnogaeth cartref hefyd yn dioddef o ddiffyg fforddiadwyedd a diogelwch (Byrne et al., 2014). Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn debygol y mwyaf ansicr yn ariannol y mae unigolyn yn teimlo, y mwyaf y bydd yr hyn yn gwaethygu bod yn agored i niwed yn y rhai ag ACEs (Hughes et al., 2018).

Mae digartrefedd yn broblem gymdeithasol ddifrifol, a achosir gan gyfuniad o ddiffyg tai fforddiadwy, hanes bywyd (anfantais) a digwyddiadau bywyd (Harding et al., 2011; Roos et al., 2013), a gall achosi dirywiad o ran iechyd corfforol a meddyliol (Roos et al., 2013). Ceir tystiolaeth dda bod anfantais yn ystod plentyndod yn gwneud digartrefedd yn fwy tebygol (Harding et al., 2011; McDonagh, 2011). Yn benodol, mae digartrefedd mewn oedolion yn gysylltiedig â dibyniaeth rhieni, trais yn y cartref, a byw mewn tai cymdeithasol neu ofal awdurdod lleol pan yn blentyn (Harding et al., 2011). Mae problemau perthnasoedd teuluol a diffyg rhwydweithiau cymorth yn gyffredin ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc sy'n cael eu hunain yn ddigartref (Fitzpatrick et al., 2000). Yn dilyn hynny, mewn oedolion, mae digartrefedd yn gysylltiedig â diweithdra, troseddu, dibyniaeth a phroblemau iechyd meddwl (Fitzpatrick et al., 2000).

Gwelwyd bod unigolion â 'digartrefedd oes' (sydd wedi dioddef digartrefedd yn para mwy na mis yn ystod eu hoes) wedi profi cyfraddau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod o'i gymharu ag unigolion heb ddigartrefedd oes (Roos et al., 2013). Roedd wyth deg pump (85%) o fenywod a 77% o ddynion â digartrefedd oes wedi profi rhyw ddigwyddiad niweidiol yn ystod plentyndod (Roos et al., 2013). Mae ymchwil arall o'r UD wedi dangos bod 87% o'r boblogaeth ddigartref, wedi dweud eu bod wedi profi o leiaf un ACE, ac adroddodd 53% am bedwar neu fwy o ACEs (Larkin a Park, 2012). Adroddodd hanner am golli rhieni, esgeulustod emosiynol, byw gyda rhywun oedd yn camddefnyddio sylweddau, a cham-drin emosiynol, gyda'r ACEs yn cydweddu'n sylweddol â'i gilydd (Larkin a Park, 2012). O ystyried y cysylltiad rhwng ACEs a digartrefedd, gallai dull wedi'i lywio gan ACEs tuag at wasanaethau tai helpu i atal digartrefedd trwy alluogi'r gweithlu i ddeall yr effaith y mae ACEs yn ei chael a sut i ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACEs mewn tenantiaid sy'n agored i niwed.

I fapio sut mae'r sector Tai yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed ledled Cymru, cyflwynwyd arolwg ar-lein Cymru gyfan drwy rwydweithiau sy'n cael eu rhedeg gan Dai Cymunedol Cymru (CHC) a Sefydliad Tai Siartredig Cymru (CIH) ym mis Gorffennaf 2017. Y nod oedd edrych ar ddulliau y mae'r sector Tai wedi eu cymryd i gefnogi tenantiaid sy'n oedolion â phrofiadau blaenorol o ACEs yn ystod plentyndod, i gefnogi teuluoedd tenantiaid â phlant lle mae ACEs cyfredol yn amlwg, a sut y gallai'r sector Tai weithio'n wahanol i gefnogi newid. Ymatebodd cyfanswm o 47 o bobl i'r arolwg, gyda 34 ohonynt yn gweithio i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, saith i awdurdodau lleol, a dau ar gyfer sefydliadau tai eraill megis gwasanaethau a gomisiynwyd (tai â chymorth). Roedd yr ymatebwyr yn cwmpasu 18 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Cynhaliwyd chwe chyfweliad ffôn lled strwythuredig ym mis Medi 2017 i archwilio ymhellach rôl ganfyddedig sefydliadau tai wrth gefnogi tenantiaid ag ACEs. Mae'r canlyniadau (a gyflwynir yn Atodiad A) yn rhoi trosolwg o ddealltwriaeth y sector Tai o effaith ACEs ar i ba raddau mae tenantiaid a chartrefi tenantiaid yn agored i niwed, a sut mae'r sector Tai yn gweld ei rôl yn yr agenda ACEs.

## 1.2 Tai a phobl sy'n agored i niwed yng Nghymru

Mae pobl yn dod yn ddigartref ac yn aros felly am ystod gyfan o resymau cymhleth sy'n gorgyffwrdd, ac mae mynd i'r afael â digartrefedd yn ymwneud â llawer mwy na rhoi to uwchben pobl, gan fod llawer o bobl ddigartref yn wynebu nifer o faterion yn ogystal â'u digartrefedd, sy'n aml yn cael eu gwaethygu gan y digartrefedd hwnnw (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Gall y rhesymau gynnwys digwyddiadau bywyd trawmatig, gan gynnwys ACEs a brofir yn ystod plentyndod (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi atal digartrefedd yng nghanol dyletswyddau'r awdurdod lleol i bawb sy'n ddigartref (yn hytrach na'r rhai a fodlonodd feini prawf penodol yn flaenorol); sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ganolbwyntio eu gwaith ar ddatrys problemau, trafod, perswadio a chyfryngu, i fynd i'r afael â digartrefedd (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng partneriaid allweddol wrth fynd i'r afael â digartrefedd ac yn gosod dyletswyddau newydd ar wasanaethau cymdeithasol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithio â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) sy'n gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i feddwl yn ataliol a chydweithredol i wella iechyd a chydraddoldeb.

Rhestrir tai fel un o'r pum blaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, 2017. Mae ganddo rôl allweddol wrth ategu iechyd da a llesiant trwy ddarparu amgylcheddau cefnogol i gymunedau a theuluoedd fyw, tyfu a ffynnu. Mae tai ochr yn ochr ag iechyd yn elfen allweddol wrth gefnogi'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 1.3 Tai cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Amcangyfrifir bod gan Ben-y-bont ar Ogwr 63,500 o unedau tai (a ddiffinir fel llety strwythurol ar wahân, naill ai'n cynnwys un cartref neu nifer o gartrefi yn rhannu rhai cyfleusterau), nad oes gan yr awdurdod lleol ddim o'r stoc honno, mae gan RSLs 8,600 o unedau (14%), mae 8,400 (13%) yn cael eu rhentu'n breifat, a 46,400 (73%) mewn perchen-ddeiliadaeth (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru o: 6% awdurdod lleol, 10% RSL, 70% mewn perchen-ddeiliadaeth, a 14% wedi'u rhentu yn breifat. Yn 2016, roedd 11 awdurdod lleol ledled Cymru wedi trosglwyddo eu stoc i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae hyn yn golygu, pan fydd y tenant yn ei le, y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yw'r landlord ac mae'n gyfrifol am gynnal y denantiaeth, ond hefyd i gadw at Ddeddf Tai Cymru (Adran 1.2) ac i weithio gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

O fewn ardal Pen-y-bont ar Ogwr mae pedwar prif RSL, Linc-Cymru, Cymoedd i'r Arfordir, Hafod a Chymru a Gorllewin, gyda phumed RSL, Tai Arfordirol, sy'n llai. Ceir mynediad at dai cymdeithasol trwy Gofrestr Tai Cyffredin unigol a gynhelir gan BCBC. Mae'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol yn nodi sut y mae tai rhent cymdeithasol yn cael eu dyrannu, ac mae hyn bob amser trwy gyfweliad â'r Tîm Atebion Tai yn BCBC - naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Mae BCBC wedi sefydlu gweithwyr cymorth tai Trydydd Sector o Llamau, y Wallich, a Shelter Cymru i roi cefnogaeth bellach i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu darparwyr tai â chymorth a llety dros dro (y Wallich, Llamau a Gofal) a gyrchir trwy BCBC, yn ogystal â chymorth symudol i denantiaid sy'n agored i niwed a gyrchir trwy BCBC (ee gwasanaethau a gomisiynwyd trwy Gefnogi Pobl fel Gofal, Gwalia, Llamau, y Wallich, gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau Cymorth Cynnar).

## 1.4 Tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr - poblogaeth

Archwiliwyd data a gasglwyd yn systematig gan BCBC er mwyn deall a oedd unrhyw ddata ar ACEs yn cael eu casglu'n rheolaidd ar hyn o bryd. Cafwyd data am y cyfnod 1.4.2016 i 31.10.2017 a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddemograffig ddienw, pobl sy'n agored i niwed, deilliannau tai, a data ar atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth arbenigol yn BCBC.

Yn ystod cyfnod o 19 mis, aseswyd 2856 o bobl ar gyfer anghenion tai gan BCBC (Tabl 1). Roedd ychydig dros 40% yn fenywod, ac ychydig o dan draean rhwng 26-35 oed. Roedd dros hanner yn oedolion sengl, gyda phumed o'r rhai oedd yn ddigartref yn rhieni benywaidd sengl gyda phlant dibynnol. Roedd hanner y bobl a aseswyd yn ddigartref, a phenderfynwyd bod bron i ddwy ran o dair ohonynt yn uniongyrchol ddigartredd, ac ychydig o dan draean dan fygythiad o ddigartrefedd.

Ni chaiff gwybodaeth am ACEs ei chasglu'n ffurfiol fel rhan o'r asesiad tai; fodd bynnag, mae gwybodaeth am bobl sy'n agored i niwed yn cael ei chasglu, ynghyd ag anghenion cymorth. Roedd ychydig dros un rhan o bump o'r rhai ag anghenion tai yn cael eu hasesu fel pobl agored i niwed ag angen rhywfaint o gymorth, ar gyfer iechyd meddwl (39%), camddefnyddio sylweddau (16%), hanes o fod yn droseddwr (12%), dioddefwyr trais yn y cartref benywaidd (DV) (10%), a chamddefnyddio alcohol (5%).

**Tabl 1: Data a gasglwyd yn systematig gan BCBC yn ystod Asesiadau Tai gan Atebion Tai**

| Nodweddion | Manylion | Amlder (%) n=2856 |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwryw | 1672 (58.5) |
| | Benyw | 1184 (41.5) |
| **Oedran (blynyddoedd)** | Dan 18 | 39 (1.4) |
| | 19-25 | 595 (20.8) |
| | 26-35 | 788 (27.6) |
| | 36-45 | 529 (18.5) |
| | 46-55 | 365 (12.8) |
| | 56-65 | 237 (8.3) |
| | 66 a throsodd | 303 (1.36) |
| **Cyfansoddiad teuluol** | Benyw sengl | 667 (23.4) |
| | Gwryw sengl | 956 (33.5) |
| | Rhiant sengl benywaidd | 590 (20.7) |
| | Rhiant sengl gwrywaidd | 40 (1.4) |
| | Pâr gyda phlant | 285 (10.0) |
| | Pâr heb blant | 211 (7.4) |
| | Arall (2 neu fwy o oedolion) | 107 (3.7) |
| **Cyflwyno'n ddigartref** | Do | 1421 (49.8) |
| ***Penderfyniad digartrefedd (n=1421)*** | *Digartref* | *811 (57.1)* |
| | *Dan fygythiad o fewn 56 diwrnod* | *461 (32.4)* |
| | *Dan fygythiad dros 56 diwrnod* | *40 (2.8)* |
| **Canlyniad asesiad tai** | Wedi cau - mewn angen am dai | 792 (27.7) |
| | Wedi cau - lleddfwyd digartrefedd | 409 (14.3) |
| | Wedi cau – wedi atal digartrefedd | 318 (11.1) |
| | Wedi cau - heb ei gartrefi | 1122 (39.3) |
| | Ar agor - yn disgwyl canlyniad | 215 (7.5) |
| **Rheswm dros ddigartrefedd*** | Chwalu perthynas – treisgar | 120 (4.2) |
| | Chwalu perthynas | 120 (4.2) |
| | Gadael gofal | 15 (0.6) |
| | Gadael y carchar | 151 (5.3) |
| | Cysgu ar y stryd | 29 (1.0) |
| **Angen am gymorth – agored i niwed** | Isel | 393 (13.8) |
| | Canolig | 158 (5.5) |
| | Uchel | 86 (3.0) |
| ***Y rhesymau a roddir dros yr angen am gymorth* - bod yn agored i niwed (n = 637) (mae anghenion lluosog yn bosibl ar gyfer pob ymgeisydd)*** | *Alcohol* | *35 (5.5)* |
| | *Hanes troseddwr* | *77 (12.1)* |
| | *Teulu ag anghenion cymorth* | *27 (4.2)* |
| | *Dioddefwr DV Gwryw* | *6 (0.9)* |
| | *Rhiant sengl ag anghenion cymorth* | *51 (8.0)* |
| | *Camddefnyddio sylweddau* | *100 (15.7)* |
| | *Dioddefwr DV benywaidd* | *65 (10.2)* |
| | *Person ifanc sy'n gadael gofal* | *59 (9.3)* |
| | *Iechyd meddwl* | *247 (38.8)* |

* Mae'r dadansoddiad yn cynnwys rhesymau a roddir sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ACE (ee nid yw'n cynnwys arian, anableddau corfforol ac anableddau dysgu)

## 1.5 Model hyfforddi wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai

Mae'r sector Tai yn ymateb i bobl â lefelau uchel o fod yn agored i niwed i'w helpu i reoli eu tenantiaethau, ac mae mewn sefyllfa dda i nodi oedolion a phlant sydd mewn perygl o ACEs, ac ymyrryd. Nod dull wedi'i lywio gan ACE yw cynyddu a gwella ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan fo ACEs yn amlwg yn yr amgylchedd cartref, ac mae angen cymorth teuluol ar deuluoedd, neu eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae dull wedi'i lywio gan ACE yn seiliedig ar ofal wedi'i lywio gan drawma (TIC). Nid oes un diffiniad o TIC, ond mae yna dair thema graidd (Dinnen, 2014):

1. **Dealltwriaeth** sylfaenol o ACEs (gan gynnwys ymatebion ymddygiadol i ACEs a symptomau ACEs)
2. Creu **amgylchedd sy'n ddiogel yn gorfforol ac yn emosiynol** i'r goroeswr a'r darparwyr (hy sicrhau preifatrwydd, cyfrinachedd, parchu gwahaniaethau diwylliannol, ac ymwybyddiaeth o ysgogwyr)
3. Mabwysiadu **dull seiliedig ar gryfderau** at wasanaethau

Mae'r dull wedi'i lywio gan ACE ar gyfer bod yn agored i niwed mewn perthynas â thai wedi'i addasu i'r sector Tai a'i dreialu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn seiliedig ar fodel wedi'i lywio gan drawma a ddatblygwyd i'w ddefnyddio gan weithlu rheng flaen Heddlu De Cymru (Ford et al., 2017). Nod yr hyfforddiant oedd galluogi'r sector Tai i ddarparu ymyriad byr trwy ddull poblogaeth, a thrwy adnabod a deall ACEs yn well i alluogi tenantiaid agored i niwed ddeall a chael mynediad at y cymorth sydd ar gael.

## 1.6 Datblygu prosiect peilot ACEs mewn Tai

Roedd y prosiect yn rhan o raglen dwy flynedd a ariannwyd gan Gronfa Arloesi'r Heddlu y Swyddfa Gartref ac fe'i noddwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys cydweithio rhwng Heddlu De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), Sefydliad Siartredig Tai Cymru (CIH), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr (BCBC), y Ganolfan Cymorth ACE (Cymru Well), a Solas Cymru (Grŵp Pobl). Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng ICC a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Thai Cymunedol Cymru. Rheolwyd y prosiect gan gydlynydd ACE a'i lywio gan grŵp prosiect amlasiantaeth.

Yn ystod datblygiad y pecyn hyfforddi, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth gan CIH-Cymru yn dilyn chwiliad llenyddiaeth gan Wasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda'r nod o nodi a oedd dulliau blaenorol wedi'u llywio gan drawma at ddigartrefedd wedi'u cynnal. Cynhaliwyd ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar ffurf dau weithdy a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 i ddeall arfer cyfredol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac i lywio datblygiad y pecyn hyfforddi.

## 1.7 Crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth

Canolbwyntiodd yr adolygiad llenyddiaeth (gweler Atodiad B am grynodeb) ar adeiladu dealltwriaeth o'r dystiolaeth ynghylch ACEs fel ffactor risg ar gyfer digartrefedd, ac atebion posibl. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod profiadau y blynyddoedd cynnar, yn enwedig ACEs yn ffactor risg ar gyfer digartrefedd ymhlith ieuenctid ac oedolion, wedi'i gyfryngu gan fwy o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod angen i ddull wedi'i lywio gan ACE ddefnyddio dull ataliol gan fynd i'r afael ag anawsterau cynnar a thrwy hynny leihau niwed posibl ac effeithio ar ganlyniadau negyddol megis digartrefedd, yn ogystal ag amharu ar y cylch rhwng cenedlaethau o ACEs a digartrefedd yn y dyfodol. Mae model wedi'i lywio gan drawma yn ddull adferol sy'n integreiddio gwybodaeth am ACEs a chymorth cysylltiedig i bob rhaglen i gefnogi pobl ddigartref, yn ogystal â defnyddio dull person-cyfan, cyfannol, a chydnabod a mynd i'r afael â thrawma yn y gorffennol a thrawma parhaus (aildrawmateiddio). Mae adfer o ACEs (trawma) yn broses hir sy'n gofyn am wasanaethau integredig da.

## 1.8 Cynnwys pecyn hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE

Cyflwynwyd y sesiwn hyfforddiant undydd ar bum achlysur gwahanol yn ystod Hydref 2017, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y gynulleidfa ar bob diwrnod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr, Gwalia, asiantaethau cymorth tai y Trydydd Sector (Llamau, Shelter, y Wallich), a swyddogion o BCBC (Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar) (gweler Adran 2.1.1).

**Prif nodau'r hyfforddiant oedd:**

- Gwella gwybodaeth, hyder a dealltwriaeth o ACEs a'u heffaith ar gwrs bywyd
- Cynyddu dealltwriaeth o ACEs a sut y gall defnyddio dull wedi'i lywio gan drawma helpu
- Amlinellu offer i wella ymgysylltiad â thenantiaid a'u teuluoedd i gynnal tenantiaethau
- Archwilio systemau cefnogi cyfredol sydd ar waith ar gyfer staff tai a nodi bylchau
- Archwilio gwaith partneriaeth gwell rhwng asiantaethau, ee Iechyd, Tai a'r Heddlu


Cyflwynwyd yr hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth i annog trafodaeth grŵp a rhyngweithio, a chreu amgylchedd hamddenol ac anffurfiol. Defnyddiwyd dulliau i dorri'r iâ, ynghyd â thynnu sylw at sensitifrwydd y materion a oedd dan sylw yn ystod y dydd, er mwyn rhoi cyd-destun i'r pynciau dan sylw ac osgoi aildrawmateiddio'r cyfranogwyr. Cynlluniwyd yr amgylchedd hyfforddi i fod yn rhyngweithiol trwy gymhwyso amrywiaeth o ddulliau, hy cyflwyniadau ffurfiol, trafodaethau grŵp bach, trafodaethau grŵp cyfan, a fideos byr ac animeiddiadau (Blwch 1).

**Blwch 1: Fideos ac animeiddiadau a ddefnyddiwyd mewn hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer Tai**

| Fideo | Theori | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Animeiddiad ACEs** | Mae ffilm fer wedi'i hanimeiddio wedi'i datblygu i godi ymwybyddiaeth o ACEs, eu potensial i niweidio iechyd ar draws cwrs bywyd a rolau gwahanol asiantaethau | Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Lleol Blackburn gyda Darwen *http://www.aces.me.uk/in-wales/* |
| **Adeiladu'r Ymennydd** | Yn esbonio sut mae profiadau yn ystod blynyddoedd cyntaf ein bywydau yn effeithio ar ffurfio'r ymennydd | NSPCC *https://www.youtube.com watch?v=hMyDFYSkZSU* |
| **Stori Katey** | Cyfweliad bywyd go iawn o dyfu i fyny yng nghanol profiadau andwyol a'i effaith ar ei bywyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Seicoleg Prinder** | Darlun o'r cysyniad o Brinder a'i berthynas â thlodi a throi allan a digartrefedd yn y pen draw | Sendhil Mullainathan (Harvard) *https://www.youtube.com/watch?v=592cmhCzbZs* |
| **Ysgrifennu Gwrthdroadwy** | Gwyrdroi sut yr ydym yn gweld plant yn cael eu heffeithio gan garchariad oedolion | Families Outside *https://www.youtube.com/watch?v=SGOB3QhGqtA* |
| **Prif Arolygydd Jason Herbert (Heddlu De Cymru)** | Cyfweliad yn egluro rôl allweddol tai yn yr agenda ACE, ac i annog gweithio gyda Thimau Plismona Cymdogaethau lleol | Heddlu De Cymru |

Darparwyd pecyn gwybodaeth i'r rhai a oedd yn bresennol, a oedd yn cynnwys cerdyn cyflym Lens ACE (ffeithlun maint cerdyn credyd o'r naw ACE a ddatblygwyd ar gyfer Heddlu De Cymru; Ffigur 1), a deunyddiau ar gyfer gwaith grŵp.

**Ffigur 1: Cerdyn LENS ACE**




**Rhan Un - Sesiwn y Bore:** Darparu dealltwriaeth o effaith a mynychder ACEs, gwyddoniaeth straen a thrawma, effaith straen gwenwynig ar ddatblygiad yr ymennydd, ac esbonio sut y gall straen ymddangos ar ffurf ymddygiad heriol. Edrychodd y sesiwn hefyd ar sut y gall y system aildrawmateiddio unigolyn a sut y gallai diffyg gwaith amlasiantaeth arwain at unigolyn sy'n agored i niwed yn ymddieithrio rhag gwasanaethau. I wrthsefyll hyn, trafododd hyfforddwyr sut y gellid adeiladu gwydnwch, ar gyfer tenantiaid a staff, gan symud tuag at dorri cylch cenedlaethau ACEs..

**Rhan Dau - Sesiwn y Prynhawn:** Canolbwyntio ar gymhwyso'r materion a drafodwyd yn ystod sesiwn y bore yn ymarferol. Rhoddwyd pwyslais ar drafodaeth grŵp o amgylch astudiaeth achos manwl (Blwch 2), gan ganiatáu i gyfranogwyr archwilio a thrafod bylchau posibl yn y ddarpariaeth gwasanaeth, archwilio rolau, cyfrifoldebau a throthwyon gwasanaethau gwahanol, ac ystyried camau ymarferol i'w cymryd.

**Blwch 2: Astudiaeth achos - Sarah a Tony**

Disgrifiodd hyn brofiadau Sarah a Tony, sy'n byw gyda'u dau fab mewn llety gyda chymorth symudol. Mae Tony yn adnabyddus i staff tai am ei natur ddicllon a'i alwadau cyson sy'n gamdriniol eu natur i staff y ganolfan alwadau. Wrth i'r astudiaeth achos ddatblygu, mae nifer o faterion yn dod yn amlwg, hy Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; triwantiaeth; materion iechyd meddwl, ACEs a chamddefnyddio alcohol.

Mewn grwpiau bach, gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol ganolbwyntio ar aelod penodol o'r teulu (gydag un grŵp yn edrych ar y teulu cyfan) ac i ystyried; pa drawma y gellid ei adnabod; sut mae hyn wedi effeithio ar eu bywyd a'u hymddygiad a sut y byddai'r gwahanol sefydliadau yn ymateb i'r sefyllfa hon. Y pwrpas oedd cymhwyso'r dysgu o sesiwn y bore i nodi'r ymddygiadau ac ystyried ymateb priodol.

Roedd offer ymarferol yn cynnwys nodi arfer cyfredol o'i gymharu â'r canlyniadau y gellid eu cyflawni pe bai dull mwy systematig yn cael ei gymhwyso, a'r ffactorau craidd angenrheidiol i gyflwyno arferion wedi'u llywio gan ACE ar gyfer Tai, hy diogelwch, gwydnwch a pherthynas (Ffigur 2). Yr amcan oedd cymhwyso'r egwyddor o gyflwyno dull wedi'i lywio gan drawma sy'n annog creadigrwydd a thryloywder

mewn amgylchedd lle mae staff yn teimlo'n hyderus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Atgyfnerthir y negeseuon bod rheolau a ffiniau yn dda i'w cadw pan fyddant yn cadw pobl yn ddiogel, ond gall y rhain newid os oes ymdeimlad nad dyna o reidrwydd y ffordd orau ymlaen o dan yr holl amgylchiadau. Dysgodd y cyfranogwyr sut i greu amgylchedd o ragweladwyedd gyda thenantiaid, deall lefel yr ymateb y byddai tenantiaid yn ei derbyn waeth pwy oedden nhw mewn cysylltiad â nhw, a chael ymdeimlad o hyder a sicrwydd bod ymholiadau a phryderon yn cael eu trin yn effeithiol.

**Ffigur 2: Ymarfer wedi'i lywio gan ACE ar gyfer Tai**

**Diogelwch**

- Sut ydych chi'n hyrwyddo diogelwch (i staff a thenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth)
- Pa mor ddiogel mae eich adeiladau yn teimlo?
- Pa mor ddiogel yw hi i fynegi eich teimladau? (fel tenant/defnyddiwr gwasanaeth neu fel aelod o staff)
- A yw'n ddiogel i wneud camgymeriadau?

**Gwydnwch**

- Sut ydych chi'n defnyddio asedau yn eich gwaith?
- A oes dewisiadau? (i chi, eich tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth?)
- A oes creadigrwydd?
- A oes cydweithio?

**Perthynas**

- Sut brofiad mae tenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth/cydweithwyr yn ei gael ohonoch chi?
- Faint o ran ydych chi'n chwarae yn eich sefydliad a pha mor gysylltiedig ydych ag ef? A yw eich tenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i chi neu eu cymuned? A ydynt wrth wraidd gwneud penderfyniadau?
- Sut ydych chi'n meddwl mae eich sefydliad yn cael ei ddeall a'i brofi gan eich tenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth?
- Os yw gwahanol adrannau yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd â gwahanol agendâu, sut mae hyn yn cael ei egluro?

# 2. Gwerthuso

## 2.1 Dulliau

Dyluniwyd y fframwaith gwerthuso gan ddefnyddio dull dulliau cymysg, gan ddefnyddio cyfuniad o offer meintiol ac ansoddol. Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y gwerthusiad a chadarnhad nad oedd angen cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG (ARG), gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru (24/07/2017). Cafwyd cydsyniad gwybodus gan yr holl gyfranogwyr.

### 2.1.1 Holiadur cyn ac ar ôl hyfforddiant: Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys holiaduron cyn ac ar ôl yr hyfforddiant gan yr holl gyfranogwyr ym mhob un o'r pum diwrnod hyfforddi. Dyluniwyd yr holiadur i asesu effaith yr hyfforddiant a fynychwyd, trwy archwilio gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ACEs, hyder i weithio mewn modd wedi'i lywio gan ACE, a bwriad i newid arfer. Er mwyn dehongli'r ymatebion, casglwyd gwybodaeth sylfaenol am y sefydliad oedd yn cyflogi, y rôl swydd a demograffeg. Mesurwyd agweddau tuag at ddefnyddio dull wedi'i lywio gan drawma gan ddefnyddio offeryn wedi'i ddilysu (ARTIC-35).

Mae'r holiadur ARTIC-35 yn cynnwys 35 o eitemau a fesurwyd gan ddefnyddio graddfa Likert saith pwynt, sy'n darparu sgôr ARTIC cyffredinol a sgoriau ar gyfer chwe israddfa a fwriedir i gynrychioli elfennau o agweddau at ofal wedi'i lywio gan drawma (TIC) (Baker et al ., 2016). Yn y cyd-destun hwn, p'un a yw'r ymyriad (*y diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai* ) yn effeithiol wrth newid agweddau tuag at ddull wedi'i lywio gan drawma. Mae'r israddfeydd yn cynnwys agweddau at (a) achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus, (b) effaith trawma, (c) ymatebion i ymddygiad a symptomau problemus, (d) ymddygiad yn y gwaith, (e) hunan-effeithiolrwydd yn y gwaith, ac (f) adweithiau i'r gwaith. Mae canlyniad uwch (wedi'i fesur o 1-7) yn awgrymu meddu ar agweddau a fyddai'n addas ar gyfer y diwylliant wedi'i lywio gan drawma.

O'r cyfanswm o 93 o bobl oedd yn bresennol yn y *Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACEs ar gyfer tai*, cymerodd 89 o staff tai ran yn y gwerthusiad. Y presenoldeb uchaf ar unrhyw ddiwrnod unigol oedd 24, ac roedd gan bob dydd gymysgedd o wahanol wasanaethau tai a chymorth wedi'u cynrychioli (gweler Tabl 2). Nid oedd cynnwys y pum diwrnod hyfforddi wedi newid rhwng sesiynau, ac fe'i disgrifir yn Adran 1.8.

**Tabl 2: Presenoldeb ar y diwrnodau hyfforddi (N = 93)**

| Diwrnod hyfforddi | Cyfanswm a werthuswyd | Sefydliadau a gynrychiolwyd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | BCBC | Cymdeithasau Tai | Gwasanaethau cymorth |
| 1 | 14 | 3 | 6 | 5 |
| 2 | 24 | 3 | 13 | 6 |
| 3 | 8 | 1 | 6 | 1 |
| 4 | 23 | 4 | 15 | 4 |
| 5 | 20 | 0 | 18 | 2 |
| Cyfanswm | 89 | 11 | 58 | 18 |

Roedd dwy ran o dair o'r cyfranogwyr yn fenywod, a 62% rhwng 26 a 45 oed. Dim ond 6% o'r rhai a fynychodd y cwrs hyfforddi nad oedd ganddynt rolau swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thenantiaid. Dim ond 12.4% oedd â rolau swyddi rheolaethol, ond roedd yr holl reolwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â thenantiaid. Cynrychiolwyd naw mudiad gwahanol sy'n gweithredu yn BCBC yn yr hyfforddiant. Cyflogwyd 65% o'r rhai a oedd yn bresennol gan un o'r pedwar prif RSL ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 12% yn gweithio i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yn naill ai gwasanaethau tai neu waith cymdeithasol, ac roedd yr 20% arall yn gweithio i wasanaethau cymorth symudol a chymorth wedi'i ymgorffori (Tabl 3).

**Tabl 3: Nodweddion mynychwyr y diwrnod hyfforddi (n = 89)**

| Nodweddion | Manwl | Amlder (%) |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwryw | 30 (33.7) |
| | Benyw | 57 (64.0) |
| **Oedran (blynyddoedd)** | 18-35 | 31 (34.8) |
| | 36-45 | 28 (31.5) |
| | 46-55 | 22 (24.7) |
| | 55+ | 8 (9.0) |
| **Swydd yn ymwneud yn uniongyrchol â thenantiaid** | Ydy | 85 (94.0) |
| **Rôl y Swydd** | Rheoli | 11 (12.4) |
| | Swyddog Tai | 29 (32.6) |
| | Gweithiwr Cymorth | 20 (22.5) |
| | Swyddog incwm/rhent | 8 (9.0) |
| | Swyddog digartrefedd/hostel/ gwasanaethau arbenigol | 6 (6.7) |
| | Arall | 15 (16.9) |
| **Trefniadaeth** | BCBC | 11 (12.4) |
| | V2C | 20 (22.5) |
| | WWHA | 10 (11.2) |
| | Linc | 11 (12.4) |
| | Hafod | 17 (19.1) |
| | Gwalia | <5 |
| | Llamau/Shelter/Wallich | 15 (15.7) |
| **Amser yn y rôl swydd (blynyddoedd)** | <1 | 14 (15.7) |
| | 1-2 | 11 (12.4) |
| | 3-4 | 15 (16.9) |
| | 5-9 | 21 (23.6) |
| | 10-19 | 23 (25.8) |
| | 20+ | 5 (5.36) |

### 2.1.2 Cyfweliadau ôl-hyfforddiant: Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai

Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb lled strwythuredig un mis ar ôl yr hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE, a gynlluniwyd i archwilio canfyddiadau a phrofiad y cyfranogwr o'r hyfforddiant, effaith yr hyfforddiant ar ymarfer, a chanfyddiadau ynghylch cyflwyno'r hyfforddiant yn y dyfodol. Cafodd y cyfranogwyr ddewis eu hunain p'un a i fynychu trwy wahoddiad e-bost a anfonwyd at bawb a fynychodd y *Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai*, lle cawsant eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad ym Mhen-y-bont ar Ogwr a fyddai'n para oddeutu 30 munud. Cyn y cyfweliad, rhoddwyd taflen wybodaeth i'r cyfranogwyr yn egluro manylion y broses, a chafwyd caniatâd ysgrifenedig gan bawb a gymerodd ran. Cynhaliwyd 13 cyfweliad rhwng 17.11.2017 a 28.11.2017 gyda staff o bedwar sefydliad (BCBC, Llamau, WWHA, a V2C), ac o ystod o rolau a chyfrifoldebau swydd (Rheoli Asedau, Swyddog Tai, Cymorth Tenantiaeth, Gwasanaethau Cymorth Tai, Rheolwr Tai, Gweithiwr Cymdeithasol Plant, Gweithiwr Cyfryngu Teuluol, ac Atebion Tai).

### 2.1.3 Dadansoddi data

Dadansoddwyd graddfeydd ARTIC gan ddefnyddio algorithmau a ddarparwyd gan y Traumatic Stress Institute (Canolfannau Teulu Klingberg, Prifysgol Tulane, UDA) sy'n cyfrifo sgoriau cymedrig ar gyfer

pob un o'r chwe is-ddosbarth, yn ogystal â sgôr gymedrig gyffredinol. Mae sgorau yn amrywio o 1 (ymwybyddiaeth isel/agweddau gwael tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma) i 7 (ymwybyddiaeth uchel/ agweddau da tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma). Cynhaliwyd dadansoddiad o ddata meintiol gan ddefnyddio IBM SPSS Statistics for Windows, Fersiwn 24.0. Defnyddiodd y dadansoddiad ystadegau disgrifiadol (cymedr a chanolrif), chi-squared, prawf t pâr, ac ANOVA unffordd. Dadansoddwyd y data gorchmynion gan ddefnyddio profion paramedrig, gan y teimlwyd bod hyn yn ddigon cadarn gan fod ymatebion yn y graddfeydd Likert yn cael eu cynrychioli gan werth rhifol enwebol. Recordiwyd yr holl gyfweliadau ansoddol, eu trawsgrifio a'u dadansoddi'n thematig gan ddefnyddio ATLAS.ti Fersiwn 7.1. [Meddalwedd cyfrifiadur] (2013) Berlin, Datblygiad Meddalwedd Gwyddonol.

## 2.2 Canlyniadau

### 2.2.1 Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai - holiadur ac Artic

#### *Hyfforddiant blaenorol a fynychwyd*

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent wedi mynychu unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â phobl sy'n agored i niwed o'r blaen, a dywedodd 76% eu bod wedi mynychu hyfforddiant cysylltiedig â phobl sy'n agored i niwed, gyda chymedr o 2.5 o gyrsiau yr un. Yr hyfforddiant mwyaf cyffredin oedd trais yn y cartref/cam-drin yn y cartref (54%), diogelu / amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed (46%), iechyd meddwl (44%), a chyfweld ysgogol (20%), (gweler Tabl 4).

**Tabl 4: Hyfforddiant blaenorol sy'n gysylltiedig â phobl sy'n agored i niwed**

| Hyfforddiant yn ymwneud â phobl sy'n agored i niwed | Nifer y rhai a fynychodd n(%) |
|---|---|
| Cyfweld ysgogol | 18 (20.2) |
| Trais /cam-drin yn y cartref (DV) / (DA) | 48 (53.9) |
| Iechyd meddwl | 39 (43.8) |
| Dibyniaeth | 10 (11.2) |
| Diogelu / yn agored i niwed oedolion a phlant | 41 (46.1) |
| Dementia / anaf i'r ymennydd | 3 (3.4) |
| Ymarfer adferol | 3 (3.4) |
| CSE / camdriniaeth | 5 (5.6) |
| Rhianta | 4 (4.5) |
| Therapi / ymwybyddiaeth ofalgar | 9 (10.1) |
| Casglu eiddo | 3 (3.4) |
| Gwrthdaro / pobl anodd | 7 (7.9) |
| Masnachu pobl / FGM / Terfysgaeth | 5 (5.6) |
| Arall | 4 (4.5) |

#### *Gofal ac ymarfer wedi'i lywio gan ACE/Trawma*

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 5 yn dangos yr oedd agweddau tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma (TIC) eisoes yn eithaf uchel cyn i'r hyfforddiant ddechrau gyda sgôr gymedrig gyffredinol o 5.33. Gellir gweld cynnydd sylweddol mewn sgoriau cymedrig ar draws yr holl israddfeydd a'r sgôr gyffredinol yn dilyn presenoldeb yn y *Diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai*. Wrth gymharu'r sgoriau cymedrig cyn ac ar ôl hyfforddiant, mae maint yr effaith gyffredinol yn fawr d = 0.786, ac mae maint yr effaith yn fwyaf ar gyfer y ddau isgrŵp sy'n cynrychioli (a) achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus, a (b) effaith trawma; gan awgrymu bod yr hyfforddiant yn cael yr effaith fwyaf ar agweddau sy'n cefnogi'r cydrannau hyn. Gan fod y diwrnod hyfforddi wedi'i strwythuro o ran deall effaith a mynychder ACEs yn y bore, a ffyrdd o gefnogi pobl agored i niwed yn y prynhawn, ymddengys bod y bore wedi bod yn fwy effeithiol o ran effaith ar agweddau.

O ran gwahaniaethau rhwng isgrwpiau, yr unig wahaniaeth a nodwyd oedd gwahaniaeth cyn hyfforddiant ynglŷn ag 'achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus', lle'r oedd y rhai a gyflogwyd gan Hafod wedi sgorio'n sylweddol is na'u cymheiriaid yn Llamau. Nid oedd unrhyw wahaniaethau pellach rhwng sefydliadau a dim gwahaniaethau mewn perthynas â rôl swydd mewn sefydliad.

**Tabl 5: Canlyniadau ARTIC**

| Israddfa | **Cyn** (n=89) Cymedrig (SD) | **Ar ôl** (n=88) Cymedrig (SD) | *p* |
|---|---|---|---|
| Achosion sylfaenol ymddygiad a symptomau problemus | 4.77 (0.62) | 5.37 (0.68) | * |
| Ymatebion i ymddygiad a symptomau problemus | 5.20 (0.81) | 5.86 (0.79) | * |
| Ymddygiad ar y swydd | 5.55 (0.64) | 5.87 (0.69) | * |
| Hunan-effeithiolrwydd yn y gwaith | 5.69 (0.65) | 6.02 (0.71) | * |
| Ymatebion i waith | 5.42 (0.71) | 5.75 (0.80) | * |
| **Sgôr ARTIC gyffredinol** | 5.33 (0.51) | 5.77 (0.61) | * |

**Arwyddocaol ar p=0.001*

## *Hyder i weithredu mewn ffordd wedi'i llywio gan ACE*

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol nodi eu hyder ar draws ystod o eitemau ar raddfa o 1 (heb fod yn hyderus o gwbl) i 10 (hollol hyderus). Mae'r canlyniadau yn Nhabl 6 yn dangos ym mhob achos bod cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn cynyddu hyder y cyfranogwyr yn sylweddol ar draws yr holl eitemau, gyda maint effaith mawr ar gyfer pob eitem ac eithrio *'y gallu i nodi a oes angen cymorth ychwanegol'* a oedd â maint effaith canolig.

Yn yr un modd â chymariaethau ARTIC, ychydig iawn o wahaniaethau oedd eto rhwng isgrwpiau o ran lefelau hyder i ymateb i bobl agored i niwed. Yr unig wahaniaeth arwyddocaol a nodwyd yn ystadegol oedd bod y rhai a fynychodd hyfforddiant oedd wedi'u cyflogi mewn swydd reoli yn fwy hyderus ar ôl yr hyfforddiant na swyddogion incwm/rhent yn eu gallu i nodi a oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer unigolyn.

**Tabl 6: Sgoriau hyder cymedrig ar gyfer ymateb i bobl sy'n agored i niwed**

| Hyder mewn... | **Cyn** (n=89) Cymedrig (SD) | **Ar ôl** (n=88) Cymedrig (SD) | *p* |
|---|---|---|---|
| Deall effaith straen a thrawma ar yr ymennydd | 5.92 (1.98) | 8.48 (1.08) | * |
| Deall beth yw ACEs | 5.52 (2.20) | 8.99 (0.94) | * |
| Deall yr effaith y gall ACEs ei chael ar ddatblygiad plentyn | 5.65 (2.27) | 9.06 (0.90) | * |
| Deall effeithiau tymor hwy ACEs | 5.53 (2.24) | 9.01 (0.85) | * |
| Deall beth yw lens wedi'i lywio gan ACE | 3.36 (2.31) | 7.91 (1.76) | * |
| Deall sut i gefnogi rhywun a nodwyd gydag ACEs | 4.44 (2.21) | 8.33 (1.30) | * |
| Deall dull amlasiantaeth at ACEs | 4.97 (2.58) | 8.76 (1.06) | * |
| Y gallu i nodi a oes angen cymorth ychwanegol | 7.75 (1.46) | 8.57 (1.05) | * |
| Y gallu i ymateb os yw rhywun yn nodi eu bod wedi cael ACEs | 4.27 (2.15) | 8.25 (1.37) | * |
| Gwerth wrth gefnogi rhywun a nodwyd eu bod wedi cael ACEs | 5.26 (2.28) | 8.51 (1.23) | * |
| Gwybod pa wasanaethau i gael mynediad atynt i gefnogi tenant | 4.30 (2.26) | 7.93 (1.49) | * |
| Gwybod pa wasanaethau i gael mynediad atynt i gefnogi eich hun | 5.01 (2.74) | 7.63 (2.17) | * |

**Arwyddocaol ar p=0.001*

## *Agweddau tuag at gyflwyno'r hyfforddiant*

Ar ôl mynychu'r hyfforddiant, gofynnwyd i'r cyfranogwyr faint yr oeddent yn cytuno gydag ystod o ddatganiadau yn ymwneud â'r ffordd y cyflwynwyd yr hyfforddiant, gan ddefnyddio graddfa Likert pum pwynt (Tabl 7). Roedd gan tua 90% o'r cyfranogwyr agwedd bositif tuag at yr holl ddatganiadau. Roedd hyn yn cynnwys perthnasedd y cynnwys, cyflwyno'r hyfforddiant yn dda, a gwybodaeth, sgiliau a gallu gwell i gymhwyso gwybodaeth.

**Tabl 7: Agweddau tuag at gyflwyno'r hyfforddiant**

| | Amlder n(%) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Niwtral | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
| Amlinellwyd nodau'r hyfforddiant yn glir ar y dechrau | | | 5 (5.6) | 41 (46.1) | 43 (48.3) |
| Roedd cynnwys y cwrs yn berthnasol i'm swydd | 1 (1.1) | 1 (1.1) | 8 (9.0) | 40 (44.9) | 39 (43.8) |
| Cyflwynwyd yr hyfforddiant yn effeithiol ac roedd hyfforddwyr yn wybodus | | | 1 (1.1) | 26 (29.2) | 62 (69.7) |
| Roedd yr hyfforddiant yn ddeniadol ac yn rhyngweithiol | | 1 (1.1) | 5 (5.6) | 32 (36.0) | 51 (57.3) |
| Roedd y deunyddiau a ddarparwyd yn ddefnyddiol | | 2 (2.2) | 5 (5.6) | 39 (43.8) | 43 (48.3) |
| Rwyf wedi datblygu gwybodaeth a sgiliau i wella ymarfer | | | 5 (5.6) | 41 (46.1) | 43 (48.3) |
| Rwy'n teimlo'n hyderus yn fy ngallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd | | | 3 (3.4) | 48 (53.9) | 38 (42.7) |
| Roedd hyd yr hyfforddiant yn ddigonol i fodloni'r nodau | 1 (1.1) | 3 (3.4) | 6 (6.7) | 40 (44.9) | 39 (43.8) |

## *Effaith yr hyfforddiant ar ymarfer - Ymgysylltu â gwasanaethau eraill*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn ymgysylltu ag unrhyw asiantaethau allanol wrth gefnogi pobl agored i niwed yn eu rôl bresennol (Tabl 8). Dywedodd mwyafrif y rhai a fynychodd (94%) eu bod ar hyn o bryd yn ymgysylltu ag o leiaf un asiantaeth arall ac ar gyfartaledd, dywedodd y mynychwyr eu bod yn ymgysylltu â $5.4 \pm 3.2$ o asiantaethau, ac roedd ystod o ymatebion o un hyd at 18.

O'r unigolion hynny a oedd eisoes yn ymgysylltu â sefydliadau eraill, nododd bron i dri chwarter eu bod yn ymgysylltu â'r trydydd sector, a oedd yn cynnwys asiantaethau tai/elusennau. Nododd dros hanner eu bod yn ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae cyfran sylweddol eisoes yn ymgysylltu â'r heddlu/gwasanaeth cyfiawnder troseddol a/neu'r sector iechyd. Y sector yr ymgysylltwyd ag ef leiaf oedd y cyngor/awdurdodau lleol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng sectorau o ran yr asiantaethau yr ymgysylltwyd â hwy wrth gymharu rôl swydd neu sefydliadau gwahanol.

**Tabl 8: Sectorau yr ymgysylltwyd â hwy i gefnogi tenantiaid agored i niwed**

| Sector Trefniadol | Amlder n(%) |
|---|---|
| Trydydd Sector (gan gynnwys Tai) | 62 (73.8) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 49 (58.3) |
| Asiantaethau Eraill | 39 (46.4) |
| Y System Carchardai a Chyfiawnder Troseddol | 36 (42.9) |
| Sector Iechyd | 34 (40.5) |
| Cyngor/Awdurdod Lleol | 14 (16.7) |

### *Hyder a gallu i ddefnyddio sgiliau*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod mynychu'r hyfforddiant wedi eu helpu i ddatblygu'r hyder a'r gallu i ddefnyddio ystod o sgiliau wrth gymhwyso dull wedi'i lywio gan ACE at bobl agored i niwed (Tabl 9). Yr ymateb cymedrig ar gyfer pob eitem oedd y byddai'r hyfforddiant yn eu helpu 'cryn dipyn'. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n fwyaf hyderus i gymhwyso sgiliau *gwrando a sicrhau*, ac roeddent yn lleiaf hyderus wrth gymhwyso sgiliau *sefydlogi*.

**Tabl 9: : Hyder a gallu i ddefnyddio sgiliau**

| | | | **Amlder** n(%) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim Ateb** | **Ddim o gwbl** | **Ychydig** | **Ansicr** | **Cryn dipyn** | **Yn llwyr** |
| Sefydlogi'r amgylchedd | 4 (4.5) | 1 (1.1) | 2 (2.2) | 10 (11.2) | 58 (65.2) | 14 (15.7) |
| Gwrando | 2 (2.2) | | 2 (2.2) | 2 (2.2) | 43 (48.3) | 40 (44.9) |
| Ymwybyddiaeth o gyfathrebu di-eiriau | 3 (3.4) | | 2 (2.2) | 9 (10.1) | 50 (56.2) | 25 (28.1) |
| Yn seilio | 3 (3.4) | | 2 (2.2) | 14 (15.7) | 48 (53.9) | 22 (24.7) |
| Sicrwydd | 3 (3.4) | | 1 (1.1) | 9 (10.1) | 48 (53.9) | 28 (31.5) |

### *Canfyddiadau yn dilyn hyfforddiant*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd eu canfyddiadau wedi newid ar ôl mynychu'r hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE (Tabl 10). Dywedodd nifer helaeth, sef 98.9% o'r rhai a fynychodd fod yna fanteision i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE at dai. Mae'r manteision a nodwyd yn cynnwys gwahanol asiantaethau yn cydweithio â Thai ar ddull wedi'i lywio gan ACE a chymryd dull mwy cyfannol tuag at bobl sy'n agored i niwed; newid canlyniadau, torri cylch ACEs ac atal/ymyrraeth gynnar, a chynnal tenantiaethau/atal troi allan a fyddai'n arbed costau; a gwell dealltwriaeth o bobl sy'n agored i niwed, nodi tenantiaid sy'n agored i niwed, a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar atebion/ gwybodus.

Teimlai bron 95% y byddai'r wybodaeth a enillwyd yn ystod yr hyfforddiant yn dylanwadu ar eu hymarfer a gwneud penderfyniadau. Dywedodd y cyfranogwyr fod yr hyfforddiant wedi codi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ACEs, y gallu i adnabod tenantiaid agored i niwed, ac i addasu eu dull at gynorthwyo tenantiaid agored i niwed yn well, ac i gysylltu â mwy o asiantaethau eraill. Teimlai wyth deg saith y cant (87%) y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut y maent yn ymgysylltu ag asiantaethau eraill. Dywedodd y cyfranogwyr y byddent am gael dull mwy amlasiantaeth tuag at ACEs a bod yn agored i niwed, cyfathrebu gwell, rhannu gwybodaeth ac arfer gorau, a nodi gwasanaethau cymorth i denantiaid agored i niwed. Teimlai pedwar deg tri y cant (43%) eu bod yn rhagweld rhwystrau rhag gallu mabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE. Dywedodd y cyfranogwyr y byddai rhwystrau'n cynnwys polisi a gweithdrefnau, diwylliant y sefydliad, tenantiaid agored i niwed yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth, rhannu data rhwng sefydliadau ac adnoddau. Pan ofynnwyd iddynt am sylwadau pellach, teimlai'r cyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn ddiddorol, yn llawn gwybodaeth, ac wedi'i ddarparu'n dda.

**Tabl 10: Canfyddiadau yn dilyn hyfforddiant**

| | **Amlder** n(%) | |
|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** |
| A ydych chi'n meddwl bod manteision i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE tuag at dai? | 88 (98.9) | 1 (1.1) |
| A ydych chi'n teimlo y bydd eich ymarfer cyfredol yn cael ei ddylanwadu gan eich dealltwriaeth o ACE / trawma a ddatblygwyd yn ystod yr hyfforddiant hwn | 84 (94.4) | 2 (2.2) |
| A ydych chi'n teimlo y bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gawsoch o'r hyfforddiant hwn yn dylanwadu ar eich penderfyniadau | 84 (94.4) | 3 (3.4) |
| A ydych chi'n teimlo y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd y byddwch chi'n ymgysylltu ag asiantaethau eraill | 77 (86.5) | 9 (10.1) |
| Yn dilyn yr hyfforddiant heddiw, a oes unrhyw rwystrau yr ydych yn eu rhagweld a fydd yn atal rhag mabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE at eich gwaith | 38 (42.7) | 45 (50.6) |

### *Elfennau o hyfforddiant sy'n dylanwadu ar ymarfer*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo y byddai gwahanol elfennau o'r hyfforddiant yn dylanwadu ar eu hymarfer (Tabl 11). Ymatebodd dros 90% eu bod yn teimlo eu bod yn deall pwysigrwydd ffactorau amddiffynnol wrth adeiladu gwydnwch, ac y byddai'r broses o geisio newid ymddygiad yn dylanwadu ar ymarfer. Teimlai wyth deg pedwar y cant (84%) o ymatebwyr y byddai deall trothwyon asiantaethau eraill yn dylanwadu ar ymarfer, ac roedd 73% o'r farn y byddai technegau cyfweld ysgogol yn dylanwadu ar ymarfer.

**Tabl 11: Elfennau o hyfforddiant sy'n dylanwadu ar ymarfer**

| Elfen Hyfforddiant | Amlder n(%) Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| Dealltwriaeth o'r broses y mae unigolion yn ei dilyn wrth geisio newid eu hymddygiad | 86 (96.6) | 2 (2.2) |
| Dealltwriaeth o bwysigrwydd ffactorau amddiffynnol wrth adeiladu gwydnwch | 84 (94.4) | 3 (3.4) |
| Deall trothwyon asiantaethau eraill wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed | 75 (84.3) | 12 (13.5) |
| Technegau cyfweld ysgogol | 65 (73.0) | 22 (24.7) |

### *- Elfennau mwyaf defnyddiol yr hyfforddiant*

Gofynnwyd i gyfranogwyr pa dair elfen o'r hyfforddiant oedd fwyaf defnyddiol (Tabl 12). Yr elfennau mwyaf defnyddiol a nodwyd oedd y clipiau fideo, trafodaethau/gweithgareddau grŵp, a gwybodaeth am effaith trawma. Yr elfennau lleiaf defnyddiol oedd datblygu sgiliau, a chymhwyso gwybodaeth i dai.

**Tabl 12: Elfennau'r hyfforddiant y cafodd y cyfranogwyr yn fwyaf defnyddiol (3 uchaf)**

| Elfen Hyfforddiant | Amlder n(%) |
|---|---|
| Clipiau Fideo | 62 (72.1) |
| Trafodaethau/Gweithgareddau Grŵp | 55 (64.0) |
| Gwybodaeth am effaith fiolegol trawma ar blant | 47 (54.7) |
| Gwybodaeth am ACEs a throsglwyddo rhwng cenedlaethau | 34 (39.5) |
| Gwybodaeth a phrofiad yr hyfforddwyr | 32 (37.2) |
| Cymhwyso gwybodaeth i dai | 23 (25.8) |
| Datblygu sgiliau/opsiynau tactegol ar gyfer ymateb i bobl sy'n agored i niwed | 19 (21.3) |

### *Agweddau y gellid eu gwella*

Gofynnwyd i gyfranogwyr pa agweddau o'r hyfforddiant y gellid eu gwella. Roedd y sylwadau'n cynnwys y gallai taflenni gynnwys copïau o'r cyflwyniad, y gallai fod cymysgedd hyd yn oed yn fwy o sefydliadau/gwasanaethau, treulio mwy o amser ar astudiaethau achos/arfer da ac offer a ddefnyddir gan sefydliadau lleol, a bod y diwrnod yn rhy hir.

### *Ymwybyddiaeth/ymgysylltiad â gwasanaethau cefnogi staff*

Mae'n bwysig, pan fydd staff tai yn delio â thenantiaid agored i niwed, sydd weithiau'n anhrefnus, eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth i'w helpu i ddelio â hyn. Efallai y bydd staff tai wedi profi ACEs eu hunain a gall delio â thenantiaid arwain at aildrawmateiddio eu digwyddiadau eu hunain.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa gymorth oedd ar gael neu a ddarparwyd ar eu cyfer gan eu cyflogeion ac yn ail pa gymorth y maent yn ei gael y tu allan i'r gwaith (Tabl 13). Y prif ffynonellau cymorth galwedigaethol ar gael oedd trwy gwnsela neu drwy reolwr llinell neu oruchwyliwr. Fodd bynnag, ymatebodd 24 o gyfranogwyr (27%) nad oeddent yn derbyn neu nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw

gymorth galwedigaethol, a nododd yr un nifer nad oeddent yn ceisio cymorth y tu allan i'r gwaith. Roedd cyfran is yn manteisio ar gymorth y tu allan i'r gwaith, gyda'r prif ffynhonnell o gymorth y tu allan i'r gwaith yn deulu, ffrindiau a meddygon teulu.

**Tabl 13: Cymorth galwedigaethol a'r hyn nad yw'n alwedigaethol ar gael i unigolion**

| Cymorth Galwedigaethol | | Cymorth y Tu allan i'r Gwaith | |
|---|---|---|---|
| **Cymorth sydd ar gael/ Defnyddiwyd** | **Amlder n (%)** | **Cymorth sydd ar gael/ Defnyddiwyd** | **Amlder n (%)** |
| Cwnsela | 27 (30.3) | Teulu | 28 (31.5) |
| Rheolwr Llinell neu Oruchwyliwr | 25 (28.1) | Ffrindiau | 17 (19.1) |
| Cymorth Gwaith Arall (ee Iechyd Galwedigaethol) | 17 (19.1) | Meddyg Teulu | 17 (19.1) |
| Cydweithwyr a Chyfoedion | 16 (18.0) | Cwnsela | 9 (10.1) |
| Llinell Gymorth Cyflogeion | 13 (14.6) | Arall | 4 (4.5) |

## 2.2.2 Cyfweliadau yn dilyn y diwrnod hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai

### *2.2.2.1 Perthnasedd a chynnwys yr hyfforddiant*

Nid oedd pawb a gafodd gyfweliad wedi dewis yn rhagweithiol i fynychu hyfforddiant ond gwnaethant hynny ar gais eu rheolwr (6/15). Roedd rhai'n ansicr ynglŷn â pherthnasedd yr hyfforddiant i'w rôl, ac roedd pob un yn teimlo nad oedd y wybodaeth cyn-hyfforddiant a dderbyniwyd yn esbonio'n llawn beth oedd ACEs, neu fanteision mynychu'r hyfforddiant.

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod yr hyfforddiant yn galluogi dealltwriaeth gliriach o effaith ACEs, yn codi ymwybyddiaeth o sut y gallai arwain at fod yn agored i niwed a'r risg o aildrawmateiddio, gwell dealltwriaeth o sut i dorri'r cylch ACEs, a darparu cadarnhad o offer a dulliau y gellid eu defnyddio i ymdrin â thenantiaid agored i niwed. Mae hyn yn cefnogi'r canlyniadau yn Adran 2.2.1. Roedd pob un o'r rhai a gafodd gyfweliad yn ymateb bod yr hyfforddiant wedi bod yn berthnasol, yn ddiddorol, wedi'i gyflwyno'n dda, ac yn cadarnhau safbwyntiau a oedd yn bodoli eisoes bod mynd i'r afael â bod yn agored i niwed mewn tenantiaid yn bwysig. Teimlwyd bod ymdrin â phobl sy'n agored i niwed eisoes wrth wraidd gwaith y rhai sy'n ymwneud â thai cymdeithasol, a bod ACEs yn defnyddio dull cyfannol newydd tuag at unigolion a chartrefi sy'n berthnasol i staff ym mhob rôl.

> *Ydy, mae'n bendant yn ticio pob blwch. Yn sicr, yn clywed fy staff hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o'm staff a aeth arno wedi bod [ar] hyfforddiant ACEs o'r blaen a daethon nhw allan yn frwd iawn a ... rhoddwyd man cychwyn i ni weithio ohono.* (C1)

> *Ond gwnaeth ei agwedd [contractwr RSL] newid yn llwyr yn ystod y dydd, ac erbyn diwedd y dydd roedd yn dweud, "O, ie, gallaf weld sut yr wyf yn dod ar draws hwn, mae angen imi gyfeirio hyn at y swyddogion tai, i'r tîm tai." Roed yn gallu gweld pam ei fod ar y cwrs.* (C12)

> *Y peth ACEs ydyw, efallai y bydd ganddynt lawer o bethau, ni allwn ddewis y broblem honno a'u hanfon yno am y peth hwnnw, dewis y peth hwnnw a'u hanfon i ffwrdd a chredaf mai dyna lle rwy'n credu bod yr ACEs mor dda oherwydd ei fod yn dweud edrychwch, mae hwn yn fater cyfannol i'r person hwnnw ac i'r teulu.* (C12)

Yr *hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE gyfer tai* oedd y tro cyntaf i unrhyw un o'r rhai a gafodd gyfweliad wneud unrhyw hyfforddiant penodol i ACEs - er bod pawb wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant mewn gwahanol elfennau o fod yn agored i niwed, megis cyfweld ysgogol, diogelu, arfer adferol, gwrthdaro,

cam-drin yn y cartref, ac atal hunanladdiad. Nid oedd gan yr holl bobl a fynychodd yr hyfforddiant yr un lefel o wybodaeth am y gwahanol offer a grybwyllwyd, megis cyfweld ysgogol, aildrawmateiddio a gwydnwch, yn enwedig os oedd rolau swyddi yn ymwneud mwy â gwaith cynnal a chadw. Gallai'r elfennau hyn fod wedi eu hychwanegu fel modiwlau ychwanegol ar gyfer y rhai hynny oedd ei angen.

### *Pryderon*

Roedd rhai yn teimlo nad oedd yr hyfforddiant yn mynd i'r afael yn ddigonol â throthwyon gwahanol ar gyfer gweithredu ar draws rolau a sectorau swyddi a gallai hyn arwain at rwystredigaeth os anogir cyfranogwyr i gyfeirio tenantiaid agored i niwed at wasanaethau eraill. Awgrymodd y cyfranogwyr y dylai'r hyfforddiant fynd i'r afael â dull mwy cydgysylltiedig rhwng asiantaethau a sectorau, er enghraifft, trwy gynnwys cyflwyniadau gan sectorau eraill (ee yr heddlu).

Codwyd pryderon hefyd ynghylch sut y gellid cymhwyso'r dysgu o fewn adnoddau cyfyngedig a'r amser cyfyngedig a dreuliwyd gyda thenantiaid, a byddai mwy o bwyslais ar atebion ymarferol wedi cael ei werthfawrogi.

> *Felly, sut y byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn yn awr? Mae wedi dechrau pobl yn siarad am ACEs; mae pobl wedi cael rhywbeth i gnoi cil arno [...] Ond mewn amgylcheddau prysur iawn a dan bwysau, sef yr hyn yw tai [...] rwy'n credu y bydd yn llithro ychydig heb gyfarwyddyd ar sut i'w symud ymlaen yn awr, sut i weithredu'r wybodaeth hon.* (C12)

> *Hoffwn weld beth sy'n dod allan ohono a'r hyn y gallwn ei wneud i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio a sut yr ydym yn mynd i ddarparu gwasanaethau ac a allwn gael y dull mwy cydgysylltiedig hwnnw. Gan gymryd y peth gam ymhellach efallai.* (C3)

### *Cyflwyno*

Derbyniwyd cyflwyniad yr hyfforddiant yn dda a theimlwyd bod yr animeiddiadau a'r fideos wedi cael effaith weledol gref. Byddai treulio mwy o amser ar wahanol astudiaethau achos yn dangos yr arfer gorau wedi bod yn ddefnyddiol. Yn arbennig oherwydd teimlwyd bod yr astudiaeth achos unigol a ddefnyddiwyd yn ystod yr hyfforddiant (yn seiliedig ar enghraifft wirioneddol o'r ardal leol) yn cael ei hystyried yn enghraifft eithafol a oedd wedi bod yn digwydd ers dros ddegawd nad oedd yn cynrychioli eu llwythi achosion nodweddiadol, ac nid oedd yn adlewyrchu'n llawn yr anawsterau a wynebir wrth ddelio â thenantiaid anhrefnus.

> *Roedd yn peri i mi boeni rhywfaint ein bod yn edrych ar bopeth ar yr esiampl o achos a dywedodd pawb y gallem wneud hyn a gallem wneud hyn, llall ac arall. Ac ar y diwedd, dwi'n meddwl os bydd y dyn hwn yn ffonio ac yn gweiddi arnom, ac nid ydym yn gwybod sut i ddelio ag ef, ac nid ydym yn gwybod sut i'w helpu, ac nid ydym yn gwybod sut i symud ymlaen. Ac er ein bod wedi awgrymu hyn, rwy'n dal ddim yn gwybod a fyddem wedyn yn gallu delio â'r peth.* (C9)

### *Manteision ychwanegol*

Dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad mai'r elfen fwyaf defnyddiol o'r hyfforddiant oedd gallu mynychu gyda chymysgedd dda o bobl o wahanol rolau swyddi, sefydliadau ac asiantaethau tai, a gallu cymharu gwahanol ffyrdd o weithio a safbwyntiau, yn ogystal â deall rolau swydd, prosesau, a llwybrau atgyfeirio yn well. Roedd cynnal yr hyfforddiant yn lleol yn gadarnhaol, fel y gallai pob rhanddeiliad rwydweithio a deall protocolau a phrosesau lleol.

> *Ymdriniom ag achos ar y cyd [astudiaeth achos] ac fe wnaethom ei gweld o safbwynt ein gilydd a gwnaeth i mi feddwl bod angen inni fod yn gweithio gyda'n gilydd yn fwy a chredaf y dylem fod wedi gwneud mwy gyda'n gilydd.* (C9)

### *2.2.2.2 Effaith yr hyfforddiant ar Ymarfer*

#### *Rhwystrau*

Gall peidio â theimlo'n gymwys i ddelio â bod yn agored i niwed roi straen ar weithwyr. Mae angen cymorth a gofal galwedigaethol digonol ar gyfer gweithwyr, ac ystyriaeth y gallai fod staff wedi profi ACEs, *"Nid ein preswylwyr yn unig, mae'n rhaid i ni ddelio â'n haelodau staff hefyd"*. (C13)

Mae amser yn rhwystr mawr, gan fod angen amser ar denantiaid agored i niwed i greu perthynas sefydlog, llawn ymddiried gyda gweithiwr penodedig, a gallant fod yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Efallai y bydd y rhai sy'n gweithio gyda'r tenantiaid hyn am gyfnod byr yn ei chael hi'n anodd cael effaith fawr, ac eithrio dim ond atgyfeirio at wasanaethau eraill. Gall polisïau a deddfwriaeth fod yn rhwystrau i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, gan ei fod yn cyfyngu ar y gallu i weithio'n hyblyg.

> *Mae dull wedi'i lywio gan ACE yn gofyn am amser ac amynedd a dod i adnabod pobl felly mae'n mynd i ... bydd yn cymryd amser i ddatblygu'r perthnasoedd hynny.* (C10)

Gall cefnogi tenant sy'n agored i niwed yn effeithiol fod ddwys o ran amser ac adnoddau, yn ogystal â rhoi straen ar staff os nad oes mecanweithiau cymorth digonol ar waith. Mae rhwystredigaeth pan fo person agored i niwed yn cael ei gyfeirio at gefnogaeth allanol ond nid yw hyn ar gael ar unwaith oherwydd rhestrau aros, trothwyon uchel (pwynt argyfwng neu droi allan), neu fod y cymorth yn y tymor byr yn unig. Mae cyllidebau cyfyngedig wrth ddarparu gwasanaethau yn rhwystr, er y teimlwyd y byddai atal yn arbed arian yn y tymor hir. Roedd anawsterau eraill yn cynnwys diffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng asiantaethau, anawsterau'n rhannu gwybodaeth, a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn nodi ACEs mewn modd cyson.

> *Rwy'n falch nad wyf yn gweithio fel Swyddog Tai. Bu'n gweithio'n ddiflino ac fe gyrhaeddodd bwynt lle roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n mynd i chwalu'n feddyliol, oherwydd popeth roedd hi'n ei wneud. Ond oherwydd nad oedd yn cael y cymorth ... dim ond ar y funud olaf y daeth yr asiantaethau allanol hynny i mewn. Ac fe wnaethon ni ei droi ef allan, yn y diwedd.* (C13)

> *Derbyniais adroddiad yr heddlu [...] Ac fe wnaeth y swyddog heddlu roi ar y ffurflen na allai nodi ACEs oherwydd nad oedd wedi siarad â'r person. Ond yn amlwg, yn seiliedig ar y wybodaeth y byddent wedi'i chael gan, yna yn sicr mae ACEs yn bresennol [...] dyma'r tro cyntaf i mi weld ACEs ar y PPN, ac roedd yn dweud, nid oedd ACEs wedi eu nodi oherwydd nad wyf wedi bod yn i mewn i gwrdd â'r plentyn. Oherwydd ei bod hi'n dal i fod ar goll. Ond mae hynny yn ACE ar ei ben ei hun.* (C5)

Dylai'r cymorth fod yn gynnar ac yn ataliol, megis tynnu tenant agored i niwed allan o amgylchedd anhrefnus i alluogi newid; neu sicrhau bod person agored i niwed wedi'i leoli yn y lle mwyaf addas.

> *Mae'n rhaid ei fod yn ofnadwy i rywun sydd wedi bod trwy ACEs ac i gael ei dynnu i mewn yn sydyn ... mae bob amser yn fy mhoeni ein bod yn rhoi oedolion ifanc agored i niwed i mewn i [hostel personau sengl] gyda'r cwsmeriaid hŷn digartref â'u holl broblemau. [...] A wnaeth y ffaith ein bod ni wedi'u gosod ymhlith pobl sydd eisoes wedi mynd ychydig ymhellach arwain at neu gyfrannu atynt nhw'n mynd i lawr y ffordd o fyw honno hefyd?"* (C1)

Mae newid y ffordd y mae tenant agored i niwed yn meddwl ac yn teimlo yn broses hir; ac yn y cyfamser, gall ei ymddygiad effeithio ar ei gymdogion a allai arwain at gael ei droi allan. Gall rwystrau ar gyfer unigolyn yn gallu cael gafael ar gymorth gynnwys gofynion i'r tenant deithio i wasanaeth neu wybod pa wasanaethau cymorth sydd ar gael.

### *Hyder*

Roedd y mwyafrif o'r rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu hyder wrth ymdrin â thenantiaid agored i niwed. Dim ond un person oedd yn teimlo nad oedd ganddo ddigon o offer i ddelio â thenant agored i niwed yn hyderus.

*Fe wnaeth [...] roi hyder i mi ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ein bod ni'n gweithio yn y ffordd gywi* (C3)

*Ond dwi ddim yn meddwl bod gen i'r offer i ... ddelio â hi yn iawn. Dwi ddim yn meddwl y byddwn i'n teimlo'n hyderus. [...] Rwy'n ymwybodol ohono, rwy'n ei ddeall nawr ond dwi, nid wyf yn siŵr y byddai'n fwy na hynny.* (C9)

Yn dilyn yr hyfforddiant, roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo'n fwy hyderus i ddechrau sgwrs am ACEs gyda thenantiaid a thrafod achos ac effaith. Dechreuodd un person a gafodd gyfweliad [gwasanaethau cymdeithasol plant] ddefnyddio'r cerdyn lens ACE (Ffigur 2, Adran 1.8) wrth weithio gyda theuluoedd er mwyn esbonio gwrthdaro yn y cartref.

*Pan edrychais ar ACEs gyntaf, a dwi'n cymryd y cerdyn hwn [cerdyn lens ACE] a'r rheswm pam rwy'n cymryd y cerdyn hwn gyda mi i bob man yw oherwydd weithiau mae'r ffordd yr wyf yn disgrifio pethau a'r hyn y mae rhieni'n ei ddeall yn wahanol. Ac mae'r rhain yn hawdd i'w defnyddio i deuluoedd.* (C5)

### *Ymgysylltu â thenantiaid*

Teimlwyd bod y sector Tai mewn sefyllfa gref i gefnogi tenantiaid a nodi ACEs oherwydd lefel yr ymgysylltiad sydd ganddynt, *"Rydym yn dod o hyd i'n preswylwyr, maen nhw, maen nhw'n ymgysylltu â ni lawer mwy nag unrhyw un o'r asiantaethau y maent yn ymwneud â hwy, chi'n gwybod?"* (C8)

Yn allweddol i allu cefnogi tenantiaid yw gallu cydnabod bod angen yr help hwn ar unigolyn cyn cyrraedd argyfwng (ee troi allan), yn ogystal â phwysleisio'r angen i dorri'r cylch trwy gymorth cynnar a digonol.

*Yr hyn rwy'n ei weld yw bod llawer ohonynt yw cymryd un broblem o un tŷ i dŷ arall, felly rwy'n credu dyna lle mae angen i dorri'r cylch ddigwydd oherwydd weithiau, os nad ydym yn delio â'r achos sylfaenol, sef o bosibl eu ACEs, yna nid yw'r cylch hwnnw'n dod i ben.* (C7)

*Unwaith eto yn mynd yn ôl at yr atal oherwydd rwy'n credu ei fod, rydym yn arfer aros nes bod rhywbeth yn cyrraedd argyfwng a chael mater wedi'i basio aton ni nes bod pawb yn cymryd rhan ac os ydym yn edrych ar ACEs ac yn dweud wel, mewn gwirionedd mae hyn yn ymwneud â nodi pethau ymlaen llaw.* (C12)

### *Ymarfer*

Gofynnwyd i'r cyfweleion a oedd yr hyfforddiant wedi cael effaith ar eu hymarfer. Roedd yr hyfforddiant yn cadarnhau ac yn ategu'r dull y maen nhw eisoes yn ei ddefnyddio, ac yn rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o effaith ACEs ac adeiladu gwydnwch i newid canlyniadau. Cynyddodd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r heriau wrth gyfeirio tenantiaid at wasanaethau cymorth, a'r bylchau o ran deall yr atebion ymarferol i fod yn agored i niwed, yn enwedig y gallai agor trafodaethau gyda thenantiaid am ACEs heb yr atebion addas i'w cefnogi, achosi problemau ag aildrawmateiddio.

*Rwy'n credu y byddwn yn sicr yn edrych ar y gwasanaethau gorau y gallaf ddod o hyd iddynt i'r person ifanc os oes angen ei gyfeirio at sefydliadau a phethau eraill. A fy null o ddelio â hwy hefyd, gallaf anelu hynny yn well os oes gen i ddealltwriaeth well o'r ACEs efallai y maent wedi'u profi neu yn profi.* (C4)

*Mae'n ymwneud ag adeiladu'r gwydnwch felly roedd yn ddiddorol iawn ac rwyf wedi siarad â phreswylwyr yn ogystal lle rwy'n meddwl, neu ofyn iddynt gwestiynu a yw'r pethau maen nhw'n eu gwneud yn effeithio ar y plant a bod yn fwy ymwybodol o hynny.* (C9)

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod y label (ACEs) yn fuddiol pan ddaeth i sgwrs gyda thenantiaid i egluro gwrthdaro.

> *Nid ydych chi'n ceisio datrys eu problemau ond rydych chi'n ei amlygu [gan ddefnyddio label ACEs] ac yn dweud, "Mae ffordd ymlaen," ac yn agor y drafodaeth honno am gael mynediad at gymorth* (C1)

Ni theimlwyd bod yr hyfforddiant wedi cael effaith ar faint o amser a dreuliwyd gyda thenantiaid ond byddai hyn yn dibynnu ar rôl swydd. Efallai na fyddai Swyddog Tai yn dod ar draws nifer o denantiaid ag ACEs yn ei waith o ddydd i ddydd, o'i gymharu â gwasanaethau cymorth a staff tai awdurdodau lleol, ond gallai dreulio mwy o amser gyda nhw. Felly roedd barnu a oedd yr hyfforddiant yn cael effaith ar ymarfer o fewn mis o'r hyfforddiant yn anodd, a gallai nodi bod yn agored i niwed fod yn anodd mewn tenantiaid nad ydynt yn amlwg yn agored i niwed ac y mae ganddynt lai o gyswllt â staff tai.

> *Mae gennych y math o gleientiaid drws troellog anhrefnus [...] maen nhw'n dod dro ar ôl tro, ond rydych hefyd yn delio ag aelodau ar wahân o'r cyhoedd nad ydynt erioed wedi profi unrhyw beth.* (C7)

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn myfyrio ar enghreifftiau o achosion cymhleth trwy lens ACE yn dilyn yr hyfforddiant:

> *Gallaf feddwl am ychydig o achosion yr ydym yn gweithio gyda hwy nawr, nid ydym yno eto. Mae'r ferch hon wedi cael magwraeth ofnadwy, cafodd hi ei cham-drin yn rhywiol pan oedd hi'n iau a chafodd ei hyder ergyd fawr. Mae gen i'm staff yn gweithio gyda hi nawr ac mae hi bellach yn dechrau meddwl am fod eisiau mynd i'r gwaith [...] mae rhwystrau gwirioneddol wedi'u chwalu sydd wedi ei harwain at ddechrau edrych ar y dyfodol a dod allan ohono a meddwl am beth hi eisiau gwneud.* (C3)

> *Y diwrnod canlynol [ar ôl yr hyfforddiant], fe wnes i sgwrsio â'm cydweithiwr am un tenant yr ydym yn delio â hi [...] mae'r bachgen hŷn wedi dechrau dwyn o siopau, ac mae'r heddlu wedi dod ag ef adref ddwywaith. Felly, yr oeddwn yn meddwl, beth y gellid ei wneud yno, oherwydd mae yna rywbeth sydd wedi effeithio arno yn amlwg [...] Gofynnais i'r swyddog heddlu lleol yr ydym yn delio ag ef, a fyddai'n gallu edrych i weld a oes unrhyw beth y gellid ei atgyfeirio ato, i weld a oes yna gynllun ieuenctid neu unrhyw beth tebyg i'w helpu.* (P6)

### *Amlasiantaeth*

Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad yr angen i asiantaethau gydweithio i gefnogi tenantiaid agored i niwed. Byddai cyflawni'r un hyfforddiant ACE i bob sector yn sicrhau y byddai tenantiaid agored i niwed yn cael eu cefnogi trwy'r un lens. Roedd y sector Tai eisoes wedi gweithio gyda nifer o wahanol wasanaethau cymorth, ond roedd pryder bod angen gwella'r gwaith amlasiantaeth. Mae angen dull mwy ataliol tuag at fod yn agored i niwed, a sicrhau, pan nodir angen bod cymorth ar waith i gwrdd â hyn. Mae angen nodi'r holl wasanaethau sydd ar gael mewn rhanbarth ac i'w gallu, rolau a chyfrifoldebau gael eu deall gan yr holl randdeiliaid, ac mae angen gwella protocolau rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau.

Byddai gweithio gyda'i gilydd yn fwy rheolaidd a gwella cyfathrebu yn dileu dibyniaeth ar berthnasoedd ad hoc. Gellid defnyddio strwythurau fel MARAC fel model o weithio amlasiantaeth ar gyfer ACEs ond mae'n allweddol bod Tai yn bartner. Gallai cytundebau rhannu data cyfredol rhwng y sector cyhoeddus a sefydliadau eraill elwa ar lens ACE a ffocws cyffredin. Mae ymgorffori gwasanaethau cefnogi, megis cyfryngu, i Dai yn un ffordd o wella gweithio cydgysylltiedig, oherwydd symlrwydd cyfathrebu dyddiol rhwng gwasanaethau. Gallai cyfarfodydd atal amlasiantaeth, i drafod pryderon am denant neu deulu agored i niwed, osgoi dyblygu gwaith a helpu i'w cynorthwyo yn gynharach cyn cyrraedd argyfwng.

*Hyd yn oed os yw'n un ddogfen fel asesiad risg neu rywbeth, gall pawb gael mynediad [...] os oeddem yn ymwybodol eu bod yn hysbys i'r heddlu, neu roedd yr heddlu yn ymwybodol eu bod yn agored i ni, yna mae'n ymwneud â chael y math hwnnw o gyfathrebu ac amlasiantaeth.* (C7)

*Mae llawer ohonom mewn tai wedi teimlo yn y gorffennol, ein bod ar yr ymylon oherwydd bod [...] llawer o bobl [ddim yn sylweddoli], nid ydynt yn meddwl pa mor bwysig yw rôl tai. Nid ydym ond yn fater o lofnodi eich tenantiaeth a dyna ni. Rydyn ni'n wirioneddol yn ymgysylltu â phobl.* (C12)

### *Canlyniadau*

Teimlai'r rhai a gafodd gyfweliad y byddai dull wedi'i lywio gan ACE yn helpu i osgoi troi allan ac yn cynnal tenantiaethau, os gall Tai ymgysylltu'n well â thenantiaid ac ymgysylltu'n well â gwasanaethau cefnogi pan fydd eu hangen. Ni fyddai sesiwn hyfforddi unigol yn ddigon i newid meddwl sefydliadol neu sut y caiff gwasanaethau eu darparu, a byddai angen ei atgyfnerthu gan ddarpariaeth hyfforddiant fwy rheolaidd. Byddai atgyfeiriadau at wasanaethau, fel achosion amddiffyn plant lefel is i Gymorth Cynnar, yn debygol o gynyddu. Un o'r camau a gymerwyd gan asiantaethau yn dilyn yr hyfforddiant oedd lledaenu'r neges am ACEs trwy'r holl rolau a chyfrifoldebau o fewn sefydliad, fel un RSL yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth byrrach i grefftwyr.

*O ganlyniad i'r hyfforddiant yr hyn rwyf wedi siarad â'm cydweithwyr a'm rheolwr llinell amdano yw y byddwn yn gwneud sgyrsiau pecyn offer [sgyrsiau 30 munud] ar gyfer ein crefftwyr ... ar, yr oeddem yn mynd i'w wneud beth bynnag ar ddiogelu ond rydym am siarad am ACEs hefyd.* (C12)

O ran cymhwyso'r offer a ddysgwyd yn ystod y cwrs hyfforddi, dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad fod y rhain naill ai'n offer yr oeddent eisoes yn eu hadnabod ac yn eu cymhwyso beth bynnag fel rhan o'u gwaith, neu eu bod yn teimlo eu bod yn meddu ar y pethau sylfaenol ond roedd angen iddynt ddysgu mwy.

### *2.2.2.3 Canfyddiadau ynghylch cyflwyno'r hyfforddiant yn y dyfodol*

Roedd cefnogaeth ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant i ardaloedd eraill yng Nghymru, ac i ddatblygu cyrsiau gloywi mewn rhanbarthau a oedd eisoes wedi derbyn yr hyfforddiant hwn. Teimlwyd y byddai cael hyfforddiant wedi'i osod o fewn ffiniau daearyddol yn helpu gweithio amlasiantaethol lleol ac yn caniatáu i gyfranogwyr ddeall yn well pa adnoddau oedd ar gael yn eu hardal. Un o gryfderau'r hyfforddiant oedd y gallu i rwydweithio a chael cymysgedd da a chynrychiolaeth o Landlordiaid Cofrestredig, cyngor, gwasanaethau cymorth a gwasanaethau cymdeithasol. Mae sectorau eraill a ddylai fod yn rhan o fodiwlau hyfforddi yn y dyfodol yn cynnwys gwasanaethau ieuenctid cymunedol, cyfiawnder troseddol, timau iechyd meddwl cymunedol, addysg, PCSO/heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Roedd teimlad bod pawb yn gyfrifol am gefnogi pobl sy'n agored i niwed, ac mae cael pobl o wahanol sefydliadau gyda'i gilydd mewn lleoliad hyfforddiant yn helpu i chwalu rhwystrau, gan sicrhau hefyd bod y dull wedi'i lywio gan ACE yn gyson ar draws pob sector sy'n delio â phobl agored i niwed, megis Meddygon Teulu, athrawon, carchardai, y gymuned, a rhieni.

*Rwy'n credu ei fod yn syniad gwych. Yn bendant. Chi'n gwybod, hyd yn oed os mai'r unig beth y mae'n ei wneud yw cryfhau arfer da sydd eisoes yn bodoli a chyfeirio unigolion at arfer da sydd eisoes yno.* (C1)

*Mae gwahanol asiantaethau'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd, on'd ydynt? Ond yn aml trwy eistedd mewn hyfforddiant mae rhwystrau'n cael eu chwalu rhwng yr asiantaethau gwahanol, oherwydd eich bod chi i gyd yno i'r un diben, nid ydych chi yno i wthio eich agenda chi, rydych chi i gyd yno i ddysgu ac i ddysgu gyda'ch gilydd.* (C1)

# 3. Trafodaeth ac argymhellion

Yn gyffredinol, nid oedd y cyfranogwyr wedi derbyn unrhyw hyfforddiant penodol ar ACEs neu hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma cyn mynychu'r diwrnod hyfforddi, er bod y mwyafrif wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ymlaen llaw ar agweddau o fod yn agored i niwed yn dibynnu ar eu rôl swydd a'u hanes. Roedd agweddau tuag at ofal wedi'i lywio gan drawma (TIC) eisoes yn eithaf uchel cyn yr *Hyfforddiant wedi'i lywio gan ACE ar gyfer tai* ar draws pob israddfa, ac wedi cynyddu ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Cynyddodd y sgôr gymedrig yn sylweddol o 5.33 cyn yr hyfforddiant i 5.77 ar ôl hynny, gyda maint effaith mawr cyffredinol, gan awgrymu bod yr hyfforddiant wedi newid agweddau'n llwyddiannus tuag at ddull wedi'i lywio gan drawma. Roedd yr effaith fwyaf ar gyfer y ddwy israddfa a fesurodd 'achosion sylfaenol o ymddygiad problemus' ac 'effaith trawma', sy'n awgrymu bod yr hyfforddiant yn cael yr effaith fwyaf ar wella gwybodaeth am ACEs. Ym mhob achos, roedd hyder wrth weithredu mewn ffordd wedi'i llywio gan ACE wedi gwella o ganlyniad i'r hyfforddiant. Yr israddfa gyda'r effaith leiaf oedd 'y gallu i nodi a oes angen cymorth ychwanegol', gan awgrymu mai hon oedd elfen lleiaf effeithiol yr hyfforddiant.

O ran sgiliau, gwellodd yr hyder cyffredinol i ddefnyddio sgiliau yn dilyn yr hyfforddiant, yn enwedig o ran sgiliau gwrando a sicrwydd. Roedd gan naw deg y cant (90%) o gyfranogwyr agwedd gadarnhaol at yr hyfforddiant a theimlai 95% y byddai'n dylanwadu ar eu harferion a gwneud penderfyniadau. Yn dilyn yr hyfforddiant, dywedodd 99% eu bod yn gweld budd i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE tuag at dai, ond dim ond 51% oedd yn meddwl nad oeddent yn rhagweld rhwystrau i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ACE at eu gwaith. At ei gilydd, ystyriwyd bod elfennau gwybodaeth a dealltwriaeth yr hyfforddiant yn ddefnyddiol ac yn helpu i ddylanwadu ar ymarfer. Yr elfennau lleiaf defnyddiol o'r diwrnod hyfforddi oedd agweddau ar dechnegau ac offer/cymhwysiad. Er mwyn gwella'r diwrnod hyfforddi, dywedodd y cyfranogwyr y byddent wedi hoffi gweld mwy o gymysgedd o sefydliadau a gwasanaethau lleol, a threulio mwy o amser ar astudiaethau achos i ddeall arfer da ac offer effeithiol.

Roedd gan y cyfranogwyr agwedd bositif tuag at gyflwyno'r hyfforddiant, gyda'r mwyafrif yn cytuno'n gryf bod yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Roedd yr hyfforddiant yn effeithiol wrth wella dealltwriaeth o ACEs a chynyddu cymhelliant i ystyried ACEs mewn cyd-destun gwaith. Er ei fod yn codi cwestiynau ynghylch pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd a sut i leihau rhwystrau, fel cyfyngiadau ar adnoddau a chymryd dull mwy effeithiol, ataliol, amlasiantaeth at ACEs. Mae cyfranogwyr eisoes yn ymgysylltu â chymedr o 5.4 o asiantaethau allanol wrth gefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed, dywedodd 94% eu bod yn ymgysylltu ag o leiaf un asiantaeth arall; gyda'r nifer uchaf yn ymgysylltu â'r trydydd sector a'r nifer lleiaf yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol. Teimlai mwyafrif y cyfranogwyr fod yr hyfforddiant wedi bod yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar eu hymarfer presennol tuag at denantiaid a dylanwadu ar eu penderfyniadau, er enghraifft cael sgyrsiau gyda chartrefi tenantiaid gan ddefnyddio ACEs a'r cerdyn lens ACE i egluro canlyniadau a gwydnwch, neu edrych ar lwythi achosion cyfredol trwy lens ACE. Roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol, er mwyn cefnogi tenant agored i niwed, bod angen perthynas sefydlog, hirdymor rhwng unigolyn dibynadwy a'r tenant, nad yw'n bosibl gyda llawer o rolau swyddi o fewn Tai. Byddai angen dull mwy person-ganolog at y tenant neu'r teulu agored i niwed er mwyn cyflawni hyn, yn ogystal ag atgyfeiriad effeithiol at wasanaethau a all ddarparu cymorth arbenigol. Byddai cynnal yr hyfforddiant ar lefel leol yn cryfhau ei effeithiolrwydd, yn enwedig trwy gynnwys gwasanaethau ac asiantaethau lleol y tu allan i Dai, i helpu i adeiladu rhwydweithiau a chydweithio, a gwella cyfathrebu.

Er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i staff sy'n delio â thenantiaid diamddiffyn ac weithiau anhrefnus, mae'n rhaid i adnoddau cefnogi fod ar gael pan fo angen. Ymatebodd ychydig dros chwarter y cyfranogwyr nad oeddent yn derbyn neu nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gymorth galwedigaethol, a dywedodd yr un nifer nad oeddent yn ceisio cymorth y tu allan i'r gwaith. Roedd cyfran lai yn manteisio ar gymorth y tu allan i'r gwaith, a'r brif ffynhonnell gymorth a gafwyd y tu allan i'r gwaith oedd teulu, ffrindiau a meddygon teulu.

Teimlwyd bod yr hyfforddiant yn llwyddiannus wrth gyflawni ei amcanion o wella'r ddealltwriaeth o ACEs a newid agweddau a hyder tuag at ddull wedi'i lywio gan ACE, a byddai'n gweithio'n dda ar gyfer staff ar draws pob lefel yn y sector Tai. Er mwyn gallu darparu cymorth i denantiaid unigol teimlwyd bod angen mwy o bwyslais ar yr offer a'r camau gweithredu ymarferol. Un o agweddau mwyaf llwyddiannus yr hyfforddiant oedd rhoi gwahanol bobl i mewn i ystafell a rhwydweithio, a deall eu rolau gwahanol yn well. Mae angen ehangu'r agwedd hon gyda chymhwysiad ymarferol yn dilyn yr hyfforddiant, lle gall gwahanol sectorau a rolau ddatblygu ymateb amlasiantaeth lleol i ACEs a bod yn agored i niwed sy'n defnyddio dull hirdymor sy'n canolbwyntio ar y person, gyda phwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar a thorri'r cylch rhwng y cenedlaethau o ACEs a phrofiadau andwyol. Mae yna eisoes gytundebau rhannu data amrywiol y gellir eu ehangu i gynnwys ACEs yn benodol, yn ogystal â grwpiau amlasiantaeth fel MARAC y gellir eu defnyddio fel model ar gyfer dull ACE amlasiantaeth.

## Argymhellion

### Tai ac ACEs

- Mae angen dull sy'n canolbwyntio ar y person tuag at gefnogi unigolyn neu deulu sy'n agored i niwed. Mae ACEs yn defnyddio dull newydd yn hynny o beth. Yn hytrach na cheisio delio ag un mater unigol, mae angen ar denantiaid agored i niwed ddull mwy holistig tuag at gymorth sy'n edrych ar achos eu materion lluosog ac yn ystyried nid yn unig yr unigolyn ond hefyd ei deulu.
- Mae'n bwysig mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ataliol neu wrth iddynt ddod i'r amlwg, yn hytrach nag aros am bwynt argyfwng (ee troi allan). Efallai y bydd y trothwyon presennol ar gyfer gweithredu yn rhy uchel, ac ni ddylai'r pwynt troi allan fod y cam cyntaf pan fydd Tai yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth ar gyfer eu tenantiaid agored i niwed. Mae angen gwella dealltwriaeth o drothwyon asiantaethau gwahanol pan wneir atgyfeiriadau, ac ystyried y ffordd orau o gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn gynharach.
- Ni ellir datrys yr ateb i ACEs a'u heffeithiau niweidiol hirdymor gan un asiantaeth ar ei phen ei hun ac felly mae angen gweithio amlasiantaeth effeithiol a chydgysylltiedig. Mae angen i'r sector Tai gymryd rhan fel partner allweddol gan fod Tai mewn sefyllfa gref i feithrin perthnasoedd dibynadwy gyda thenantiaid, a nodi anghenion cymorth yn gynnar. Fodd bynnag, mae angen cyfathrebu a chydweithredu rhwng gwasanaethau ac asiantaethau, mae angen llai o rwystrau i gael mynediad at wasanaethau cymorth neu rannu gwybodaeth, ac mae angen ysgogi polisi ar lefel genedlaethol. Mae angen mynd i'r afael â rhwystrau i weithio cydgysylltiedig rhwng asiantaethau, a dull amlasiantaeth tuag at bobl sy'n agored i niwed.
- Mae tai yn un o agweddau pwysicaf bywydau pobl ac yn cyfrannu llawer at iechyd a llesiant. Mae'r sector Tai eisoes yn gweithio i gefnogi tenantiaid agored i niwed er mwyn cynnal tenantiaethau sefydlog, ac yn gweld bod ACEs yn gynyddol amlwg yn y gwaith y maen nhw'n ei wneud. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw adnoddau yn rhwystr i allu gwneud hyn.
- Dylid cynnal gwaith pellach i adolygu sut i wella gweithio pellach rhwng y sector Tai ac asiantaethau eraill, i wella dull amlasiantaeth cyson tuag at yr agenda ACEs a gwaith rhyngasiantaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar berson neu deulu sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys rhannu data'n effeithiol ac ymyrraeth gynnar yn hytrach nag aros tan i argyfwng ddigwydd, er mwyn atal ACEs.
- Dylid mynd i'r afael ag anghenion cymorth staff sy'n delio â thenantiaid sy'n agored i niwed oherwydd trawma a achoswyd gan ACEs o fewn pob sefydliad i atal aildrawmateiddio a straen.

## Y Pecyn Hyfforddi

- Dylai'r adnodd hyfforddi hwn gael ei gydnabod a'i hyrwyddo fel cwrs hyfforddi 'ACEs mewn Tai' sylfaen cyffredinol yn y sector Tai, a'i hyrwyddo fel rhywbeth addas ar gyfer pob lefel o staff i godi gwybodaeth graidd ac ymwybyddiaeth o ACEs fel bod staff yn gallu adnabod ACEs mewn tai a bod yn fwy hyderus wrth ymateb iddynt. Dylid darparu hyfforddiant cyfochrog i sectorau eraill (ee ysgolion, yr heddlu) fel bod dull cyson wedi'i lywio gan ACE ar draws pob sector sy'n delio â phobl sy'n agored i niwed.
- Gellir defnyddio'r hyfforddiant ar ei ben ei hun, neu ei gynnig fel rhan o becyn hyfforddi o dan y fframwaith gwybodaeth a sgiliau, a ddatblygwyd gan y Ganolfan Cymorth ACE, Cymru Well ac wedyn cael ei hyrwyddo a'i gyflwyno ledled Cymru.
- Dylai unrhyw gyflwyniad cenedlaethol o'r hyfforddiant ystyried sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gynnal a'i gefnogi ar lefel leol ynghyd â staff Tai, gwasanaethau cymorth ac asiantaethau eraill. Mae sefydliadau'n cefnogi eu poblogaeth leol, a byddai darparu hyfforddiant ar lefel leol yn galluogi gwell dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau, protocolau a phrosesau lleol, ac argaeledd gwasanaethau lleol gwahanol, er mwyn cefnogi unigolion yn well.
- Gellid addasu'r hyfforddiant i fynd i'r afael â dull mwy cydgysylltiedig rhwng asiantaethau a sectorau, a gallai cael presenoldeb aml-sector neu gyflwyniadau roi gwerth ychwanegol i'r hyfforddiant.
- Mae cyflwyno'r hyfforddiant i sbectrwm eang o staff Tai, ar draws deiliadaethau, yn golygu bod angen sicrhau nad oes sylfaen wybodaeth dybiedig. Gellid cysylltu â modiwlau hyfforddi eraill sydd eu hangen i ddatblygu sgiliau i ymgymryd â dull wedi'i lywio gan ACE tuag at fod yn agored i niwed, megis cyfweld ysgogol ac arfer adferol, i'r rhai sydd ei angen.
- Dylid ystyried cryfhau'r atebion ymarferol i gymryd dull wedi'i lywio gan ACE. Byddai cyflwyno mwy o astudiaethau achos sy'n cynnwys canlyniad llwyddiannus a chamau gweithredu go iawn a greodd y canlyniad yn cael ei groesawu.
- Nid yw hyfforddiant unwaith ac am byth yn ddigon i ymgorffori newid diwylliant o fewn y sectorau Tai a sectorau eraill, ac felly mae angen i hyn fod yn rhan o ddatblygu dull amlasiantaeth cadarn i weithio mewn dull wedi'i lywio gan ACE. Y dechrau yw sicrhau bod yr holl sectorau perthnasol yn cael yr un hyfforddiant sylfaenol mewn dull wedi'i lywio gan ACE, ond mae angen dilyn hyn gyda rhannu data'n effeithiol, nodi problemau'n gynnar, a dull amlasiantaeth, sy'n canolbwyntio ar y person at ACEs a phobl sy'n agored i niwed sydd wedi'i gefnogi gan bolisi.
- Dylid ystyried y ffordd orau o hyrwyddo'r hyfforddiant yn y Sector Tai, yn enwedig y tu allan i dai cymdeithasol, sy'n cynnwys gweithio gyda Thai Cymunedol Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymdeithas Landlordiaid Preswylwyr, a chyrff perthnasol eraill.

# Cyfeiriadau

Ashton K, Bellis MA, Davies AR, Hardcastle K, a Hughes K. 2016a. *Adverse Childhood Experiences and their association with chronic disease and health service use in the Welsh adult population*. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ashton K, Bellis MA, Davies AR, Hardcastle K, Hughes K, Mably S, a Evans M. 2016b. *Adverse Childhood Experiences and their association with Mental Well-being in the Welsh adult population.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Baker CN. Brown SM. Wilcox PD. Overstreet S. ac Arora P. (2016). *Development and psychometric evaluation of the Attitudes Related to Trauma-Informed Care (ARTIC) Scale*. School Mental Health, 8(1), 61-76

Bellis MA, Ashton K, Hughes K, Ford K, Bishop J, a Paranjothy S. 2015. *Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Braubach M, Jacobs D, ac Ormandy D. 2011. *Environmental burden of disease associated with inadequate housing.* WHO Europe.

Byrne E, Elliott E, Green L, a Lester J. 2014. *Housing and Health Evidence Review for Health Impact Assessment.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dinnen S. 2014. Trauma-informed care: a paradigm shift needed for services with homeless veterans *Professional Case management*. 19 (4):161-170

Farrow A, a Golding J. 1997. *Time spent in the home by different family members.* Environmental Technology. 18: 605-614

Fitzpatrick S, Kemp P, a Klinker S. 2000. *Single homelessness: An overview of research in Britain.* The policy press.

Ford K, Newbury A, Meredith Z, Evans J, a Roderick J. 2017. *Gwerthusiad o beilot y Dull wedi'i Lywio gan ACE at Blismona Pobl sy'n Agored i Niwed (AIAPVT) pilot.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Harding J, Irving A, a Whowell M. 2011. *Homelessness, Pathways to Exclusion and Opportunities for Intervention.* The Cyrenians

Hughes K, Ford K, Davies AR, Homolova L, a Bellis MA. 2018. *Sources of resilience and their moderating relationships with harms from adverse childhood experiences*. *Report 1: Mental Illness.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Larkin H, a Park J. 2012. Adverse childhood experiences (ACEs), service use, and service helpfulness among people experiencing homelessness. *Families in Society*. 93 (2):85-93

Marmot M, Allen J, Goldblatt P, Boyce T, McNeish D, Grady M, a Geddes I. 2013. *The Marmot Review: Fair Society, Healthy Lives. Strategic review of inequalities in England post 2010.*

Roos L, Mota N, Afifi T, Katz L, Distasio J, a Sareen J. 2013. Relationship Between Adverse Childhood Experiences and Homelessness and the Impact of Axis I and II Disorders. *American Journal of Public Health.* S2 (103):S275:281

Swyddfa Archwilio Cymru. 2018. *How Local Government manages demand – Homelessness.* 8 Ionawr 2018.

Llywodraseth Cymru. 2018. *Dwelling Stock Estimates.* *https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-localauthority-tenure* *[Cyrchwyd 19.01.2018]*

# Atodiad A: Agweddau Cymru gyfan tuag at fod yn agored i niwed mewn perthynas â thai

Ymatebodd pedwar deg saith o bobl i'r arolwg, yr oedd 34 ohonynt yn gweithio i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, 7 i awdurdodau lleol, a dau ar gyfer sefydliadau tai eraill, yn cwmpasu 18 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau arolwg i archwilio eu canfyddiad o rôl eu sefydliad wrth ymateb i ACEs. Gofynnwyd iddynt ateb ar ran eu sefydliad, ond mae angen cydnabod bod ateb ar ran nifer fawr o staff sy'n gweithio mewn rolau a gwasanaethau gwahanol, gyda nifer uchel o gartrefi yn anodd, felly bwriedir i'r canlyniadau ddarparu cipolwg o agweddau tuag at ACEs gan y sector tai ledled Cymru. Cymerodd chwech o'r ymatebwyr, o chwe RSL gwahanol, ran mewn cyfweliadau lled-strwythuredig i ganiatáu archwiliad manwl pellach o rôl canfyddedig sefydliadau tai wrth gefnogi tenantiaid ag ACEs.

## Effaith ACEs blaenorol ar ba mor agored i niwed yw tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth s

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn meddwl y gallai fod ACEs **a brofwyd yn ystod plentyndod** fod wedi effeithio ar y lefel gyfredol o fod yn agored i niwed ymhlith eu tenantiaid, ar raddfa Likert 10 pwynt (1 = ddim o gwbl, 10 = yn eithriadol), i ddeall ymwybyddiaeth o'r effaith ar oedolion sydd wedi profi ACEs yn flaenorol yn ystod plentyndod (Tabl A1). Gellir gweld gwahaniaethau gydag ACEs unigol ac i ba raddau y teimlwyd eu bod yn effeithio ar fod yn agored i niwed mewn oedolion. Roedd y nifer lleiaf o ymatebwyr yn teimlo bod cam-drin geiriol (49%) a rhieni'n gwahanu (45%) yn cael effaith fawr ar oedolion, ac roedd 85% yn teimlo bod salwch meddwl yn yr amgylchedd cartref yn cael effaith fawr.

Teimlai nifer bach o ymatebwyr fod ACEs yn cael effaith isel ar fod yn agored i niwed mewn oedolion, ac eithrio yn achos salwch meddwl neu gamddefnyddio alcohol yn y cartref lle teimlai 0% fod effaith isel. Roedd pob ACE a brofwyd yn ystod plentyndod ag ystod o ymatebion rhwng isel ac uchel; fodd bynnag, ymatebodd y mwyafrif y byddai ACEs unigol a brofir yn ystod plentyndod yn cael rhywfaint o effaith ar fod yn agored i niwed mewn tenantiaid sy'n oedolion.


**Table A1: Maint effaith gwahanol ACEs a brofwyd ar fod yn agored i niwed mewn tenantiaid sy'n oedolion**

| | ACE | Canolrif (IQR) | Isel 1-3 n (%) | Canolig 4-6 n (%) | Uchel 7-10 n (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i gyfeirio at y plentyn | Cam-drin geiriol | 6.0 (5-8) | 2 (4.3) | 22 (46.8) | 23 (48.9) |
| | Cam-drin corfforol | 8.0 (6-9) | 1 (2.1) | 11 (23.4) | 35 (74.5) |
| | Cam-drin rhywiol | 9.0 (6-10) | 5 (10.6) | 7 (14.9) | 35 (74.5) |
| | Esgeulustod corfforol | 8.0 (7-9) | 5 (10.6) | 6 (12.8) | 36 (76.6) |
| | Esgeulustod emosiynol | 8.0 (7-9) | 2 (4.3) | 9 (19.1) | 36 (76.6) |
| Amgylchedd y cartref | Rhieni'n gwahanu | 6.0 (5-8) | 6 (12.8) | 20 (42.6) | 21 (44.7) |
| | Trais yn y cartref | 8.0 (7-9) | 1 (2.1) | 10 (21.3) | 36 (76.6) |
| | Salwch meddwl | 8.0 (7-10) | 0 (0.0) | 7 (14.9) | 40 (85.1) |
| | Alcohol | 8.0 (6-9) | 0 (0.0) | 13 (27.7) | 34 (72.3) |
| | Cyffuriau | 8.0 (6-9) | 1 (2.1) | 11 (23.4) | 35 (74.5) |
| | Carcharu | 8.0 (5-9) | 8 (17.0) | 9 (19.1) | 30 (63.8) |

## Effaith ACEs blaenorol ar anghenion presennol tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth

Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod ACES **a brofwyd yn ystod plentyndod** yn effeithio ar anghenion cyfredol eu tenantiaid, ar raddfa Likert 10 pwynt (1 = ddim o gwbl, 10 = yn eithriadol). Mae canolrif o 8.0 (IQR 7-9) yn awgrymu bod ymatebwyr yn teimlo bod maint yr effaith ar anghenion cyfredol tenantiaid sy'n oedolion o brofiadau yn ystod plentyndod yn uchel (Graff A1).

**Graph A1: Maint effaith yr ACEs a brofwyd yn ystod plentyndod ar anghenion cyfredol tenantiaid sy'n oedolio**




Bu'r rhai a gafodd gyfweliad yn trafod sut mae'r sector tai yn delio â chanlyniadau ACEs sy'n cael eu profi ar hyn o bryd mewn cartrefi tenantiaid â phlant, yn ogystal ag effaith ACEs hanesyddol a brofwyd gan denantiaid sy'n oedolion yn ystod eu plentyndod sydd wedi arwain at fod yn agored i niwed fel oedolion a risgiau i denantiaethau. Teimlwyd bod diffyg gwybodaeth am ACEs a'u heffaith ar lefel gyhoeddus gyffredinol, a all arwain at gymhlethdodau pan fydd sefydliadau'n ceisio rhoi cymorth.

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad wedi gweld cylch rhwng y cenedlaethau o dlodi a digartrefedd, lle mae tenantiaid a gafodd blentyndod anodd yn dod yn genhedlaeth nesaf o denantiaid agored i niwed. Teimlwyd bod diffyg perthnasoedd iach gyda theulu yn cael effaith bellgyrhaeddol ar y risg o ddigartrefedd, *"Heb deulu gofalgar, cefnogol gartref, rydych chi'n llawer mwy tebygol o ddod yn ddigartref"* (c1). Dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad fod tenantiaid sy'n agored i niwed sydd wedi dioddef cam-drin yn y cartref, yn bobl sy'n gadael gofal neu'n bobl ifanc sydd wedi dod yn ddigartref oherwydd anawsterau teuluol, neu sydd â phroblemau meddwl sylweddol sy'n deillio o'u plentyndod. Roedd cydnabyddiaeth bod ACEs a brofwyd yn ystod plentyndod yn arwain at fod yn agored i niwed ymhlith tenantiaid sy'n oedolion, a phryder ynghylch effaith tlodi ar ACEs, a diffyg gwydnwch o ran effaith ACE symhlith rhai tenantiaid.

*Rydym yn sicr yn gweithio gyda phobl sydd wedi cael cenedlaethau o ddiweithdra [...] sydd wedi tyfu i fyny mewn amgylcheddau lle mae trais yn y cartref, neu yn sicr lle mae trais yn y cartref yn eu cymuned. Mae hynny'n teimlo'n eithaf cyffredin, mewn gwirionedd. Ac mewn gwirionedd, y mater mwyaf sy'n wynebu ein, y garfan fwyaf o denantiaid mewn gwirionedd yw tlodi, ac mae tlodi yn arwain at brofiadau plentyndod niweidiol, oherwydd [...] mae pobl mewn sefyllfaoedd argyfyngus, yn gwneud pethau anffodus. Gan gynnwys peidio â gofalu am eu plant mewn ffordd efallai y byddent yn hoffi ei gwneud pe baent, mewn amgylchiadau ariannol gwahanol.* (c4)

*Mae'r peth arall yn ymwneud â faint o wydnwch sydd hefyd, oherwydd dwi'n meddwl eich bod chi'n gwybod, nid yw'r pedwar ACEs o reidrwydd yn golygu rhywun sy'n mynd i fod yn ddigartref, ond mae amgylchiadau eraill lle nad oes ganddynt rwydweithiau cymdeithasol, dulliau cymorth eraill yn y gymuned sy'n eu gwneud yn llai gwydn i effaith y profiadau*

*plentyndod eraill y maen wedi'u cael. Maen nhw'n llai abl i ymdopi â'r effeithiau a dyna'r gwaith yr ydym i gyd yn ceisio'i wneud yw helpu pobl i ddatblygu gwydnwch.* (c5)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad y gallai cyswllt rhwng y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a thrigolion ag ACEs ddigwydd dim ond pan fo problemau acíwt yn codi, fel achosion o dorri rheolau'r denantiaeth a achosir gan drais yn y cartref, cam-drin corfforol, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gamddefnyddio cyffuriau, a allai wedyn arwain at gamau gorfodi megis cosbau, neu droi allan fel y dewis olaf. Cydnabu'r rhai a gafodd gyfweliad y gallai ACEs amlygu eu hunain mewn oedolion agored i niwed fel materion rheoli dicter, trais yn y cartref, neu gamddefnyddio sylweddau, a allai fod yn ymddygiadau a ddysgwyd neu ffyrdd o ymdopi, gyda'r ymddygiad hwn yn effeithio ar sut y gallant reoli eu tenantiaethau.

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod yna wahaniaethau ym mynychder yr ACEs mewn anghenion tai cyffredinol o'i gymharu â thai â chymorth, megis gwasanaethau ieuenctid, a hosteli ieuenctid ac oedolion dros dro.

*Roedd gan bob person a ddaeth trwy ein gwasanaethau ieuenctid brofiad plentyndod trawmatig [...] er ein bod yn gweld rhai o'r materion hynny mewn tai anghenion cyffredinol, nid ydym yn eu gweld yn yr un dwysedd ... felly yn amlwg mae'r cynllun tai â chymorth, gallai fod yna 20 o bobl ifanc yn byw mewn un cynllun, roedd pob un o'r 20 o'r bobl hynny wedi dioddef digwyddiad plentyndod trawmatig o ryw fath neu'i gilydd.* (c4)

*Yn bendant, yn enwedig wrth edrych ar ein hosteli oedolion sydd ... rydym wedi gwneud ychydig o waith o gwmpas ACEs o fewn ein hosteli a'n hostel pobl ifanc, mae 93% o'r bobl ifanc hynny wedi cael ACEs, pedwar neu fwy. ... rydym yn gweld camddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol, yn amlwg eu hymddygiad o gwmpas y math yna o beth, colli tenantiaethau, eich sgiliau sylfaenol ... eich sgiliau byw bob dydd, eich sgiliau cymdeithasol. Felly mae'n effeithio ar eu bywyd.* (c5)

## Effaith ACEs cyfredol ar gartrefi tenantiaid â phlant

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad, er y gallai'r sector tai gynnwys rhianta yn eu hasesiadau risg/cynllun anghenion cymorth a gynhaliwyd ar ddechrau tenantiaethau, efallai na fydd tai yn dod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud ag ACEs mewn cartref tenantiaid hyd nes y bydd yr ymddygiad yn eithaf cyffredin ac maen nhw'n dechrau derbyn cwynion. Teimlwyd bod ysgolion mewn sefyllfa dda i weld arwyddion cynnar o ACEs mewn plant. Pan fo ACEs cyfredol, fel cam-drin yn y cartref, gall fod yn anodd i unrhyw un sy'n helpu'r oedolyn sy'n dioddef y cam-drin, sy'n ceisio goroesi, i weld yr effaith ar ei blant. Yn yr un modd, mae'n heriol i gael y rhiant sy'n tramgwyddo i gydnabod yr effaith ar blentyn. Pan fo ganddynt bryder diogelu neu'n teimlo bod perygl posibl i blentyn gall tai atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, a phan fo hynny'n bosib mewn partneriaeth/cyfathrebu â'r tenant, ond mae a fydd camau'n cael eu cymryd yn dibynnu ar y trothwyon sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol, a theimlwyd bod y cyfathrebu yn tueddu i fod yn unffordd.

*Mae rhwystr bob amser yno gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, pan rydyn ni'n ceisio gwneud atgyfeiriadau i blant. Erbyn hyn, mae gennym enghraifft dda, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle roedd gan y dyn a'r fenyw dan sylw, salwch iechyd meddwl, mae gan y ddau ohonynt ACEs [...] ac mae ganddynt [...] blentyn pedair oed. Nawr, mae eu hymddygiad o amgylch y plentyn hwn yn gwbl amhriodol, a phan wnaethom ni atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, fe wnaethant, gwnaethon nhw alwad ffôn. Ni wnaethant fynd i'r afael â'r ffaith bod yr eiddo mewn cyflwr gwael. Ni wnaethant ystyried yr hyn yr oedd y swyddog tai yn ceisio ei ddweud wrthyn nhw. Ac yna daethon nhw yn ôl atom a dweud, rydym wedi siarad â'r cwpl hwnnw, neu â'r dyn, ac nid ydym yn credu bod problem. Ond mae'r mater hwnnw'n dal i fynd ymlaen.* (p3)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad na fyddai ACEs cyfredol eraill, fel rhieni'n cael eu carcharu neu'n gwahanu, yn awtomatig yn sbarduno'r angen am atgyfeirio plentyn. Gall ACEs, megis camddefnyddio sylweddau, cam-drin, esgeulustod neu drais fod yn gymhleth hefyd, gan fod graddiant ynddynt, felly gall llawer ddibynnu ar asesiad goddrychol gan dai - er y gall tai ddewis bod yn ofalus ac atgyfeirio at y

gwasanaethau cymdeithasol os oes unrhyw amheuaeth.

## Nodi ACEs


Gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oedd eu sefydliad **yn nodi** tenantiaid sy'n oedolion sydd â phrofiad blaenorol o ACEs, neu gartrefi lle mae plant yn agored i ACEs ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o nodi'r ACEs presennol sy'n cael eu profi mewn cartrefi tenantiaid lle mae yna blant, nag i nodi ACEs hanesyddol (Graff A2). Byddai dros hanner yr ymatebwyr yn nodi achosion cyfredol o gam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, esgeulustod corfforol, trais yn y cartref a salwch meddwl mewn cartrefi tenantiaid lle roedd ACEs yn cael eu profi ar hyn o bryd. Trais yn y cartref oedd yr ACE mwyaf dynodedig a fyddai'n cael ei nodi. O dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae dyletswydd i ddatblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth leol i gyflawni diben y Ddeddf, felly bu ymgyrch bolisi i fynd i'r afael â thrais yn y cartref yn lleol yng Nghymru. Gyda phrofiad blaenorol yn ystod plentyndod o ACEs mewn tenantiaid sy'n oedolion, byddai oddeutu traean o'r ymatebwyr yn nodi trais cam-drin yn y cartref, cartrefi â salwch meddwl, neu gamddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac roedd cam-drin geiriol, esgeulustod emosiynol a rhieni'n gwahanu yn llai tebygol o gael eu hadnabod.

Dywedodd ymatebwyr ymhellach fod y sector tai yn tueddu i ganolbwyntio ar **fod yn agored i niwed a materion** sy'n cael eu codi gan ACEs ac ymdrin â hwy, yn hytrach na phresenoldeb ACEs yn unig; ac mewn perthynas â'r rhan fwyaf o denantiaid na fyddai staff tai yn gwybod a oedd ACEs wedi'u profi oni bai bod y tenant yn mynd ati i ddatgelu hyn.

Mae ACEs yn derminoleg gymharol newydd, ac nid oes hyfforddiant ar gael ar gyfer y sector Tai ar ACEs yn benodol, felly mae'n bosibl bod ACEs yn cael eu nodi a'u trin dan derminoleg wahanol.

**Graph A2: Nodi ACEs blaenorol yn ffurfiol mewn oedolion ac ACEs cyfredol mewn cartrefi**

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn nodi nad yw gwybodaeth am ACEs yn cael ei holi neu ei chofnodi



fel mater o drefn i denantiaid. Un rhwystr i wneud hynny yw pe bai data'n cael eu cofnodi, mae angen pwrpas clir, gan na fydd presenoldeb ACEs bob amser yn effeithio ar y gallu i gynnal tenantiaeth. Mae'r sefyllfa mewn tai â chymorth yn wahanol, a theimlir ei fod yn addas o ran cofnodi ACEs tenantiaid.

Teimlai'r rhai a gafodd gyfweliad fod yr 'ACEs' yn rhoi fframwaith o gwmpas bod yn agored i niwed ac yn 'ychwanegu rhywbeth ychwanegol', ond gan nad yw pob unigolyn sy'n profi ACEs mewn plentyndod yn agored i niwed, mae hyn yn ychwanegu her wrth nodi a delio â'r rhai sydd yn agored i niwed. Pan fydd tenant yn mynd i mewn i dai cyffredinol, bydd yn cael asesiad risg neu gynllun cymorth unigol, ac er y gall hyn fod yn eithaf manwl y bydd y lefel y bydd yn mynd i mewn i feysydd gwahanol o'i fywyd a'i orffennol yn dibynnu ar y sefydliad. Er enghraifft, gall gymryd ymagwedd gyfannol o ran deall gorffennol tenantiaid a'r hyn sy'n bwysig ar hyn o bryd, neu gall gymryd agwedd fwy anuniongyrchol at ACEs sy'n canolbwyntio ar ymateb i sefyllfaoedd presennol ac anghenion, ac ymateb i broblemau sy'n codi. Gallai hyn fod pan fydd tai'n mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth ar gyfer datrys problemau; neu os yw tenant yn ffoi rhag trais yn y cartref neu gam-drin rhywiol.

## Gweithredu ar ACEs

Gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oedd eu sefydliadau yn **gweithredu** ar unrhyw ACEs a brofwyd mewn plentyndod a nodir mewn tenantiaid sy'n oedolion, neu gartrefi lle mae plant yn agored i ACE ar hyn o bryd, ar raddfa Likert 10 pwynt (1 = ddim o gwbl, 10 = yn eithriadol; Tabl A4). Ar y cyfan, roeddent yn fwy tebygol o weithredu ar ACEs cyfredol mewn cartrefi â phlant yn bresennol, ac yn arbennig lle mae amheuaeth o drais yn y cartref, cam-drin corfforol a rhywiol, ac yn lleiaf tebygol o weithredu lle roedd rhieni wedi gwahanu neu riant yn cael ei garcharu wedi digwydd. O ran gweithredu ar ACEs a brofwyd yn y gorffennol gan denantiaid sy'n oedolion, ym mhob achos byddai hyd at 68% o ymatebwyr yn cymryd camau i gefnogi tenantiaid (ymateb 4 neu uwch ar raddfa Likert), yn enwedig o ran profiad hanesyddol o rieni'n gwahanu neu'n cael eu carcharu, ond hefyd cam-drin geiriol a chorfforol.

Yn gyffredinol, dywedodd yr ymatebwyr nad yw ACEs yn cael eu nodi'n rhagweithiol yn eu tenantiaid sy'n oedolion. Fodd bynnag, gellir datgelu ACEs yn ystod y broses asesu tai neu ar y pwynt pan fydd tenant yn cyrraedd argyfwng. Yna byddai'r sefydliad tai yn ymateb yn unol â hynny a chefnogir tenantiaid yn fewnol er mwyn cynnal eu tenantiaeth, a'u hatgyfeirio at sefydliadau allanol ar gyfer cymorth arbenigol sydd y tu hwnt i arbenigedd neu allu'r sefydliad tai - ond dim ond os yw'r tenant yn fodlon ymgysylltu. Gall rhai sefydliadau tai ddarparu gwasanaethau arbenigol, megis Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT) neu gynlluniau i ddarparu, er enghraifft, cymorth rhianta. Mewn rhai achosion, megis Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal, mae protocolau ar waith gyda sefydliadau allanol i sicrhau bod yr holl ffactorau risg yn hysbys a bod anghenion tai yn cael eu blaenoriaethu.

Mewn cartrefi tenantiaid â phlant, os nodir ACEs sydd hefyd yn gymwys fel mater amddiffyn plant (fel bod dyletswydd statudol i weithredu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), yna bydd tai bob amser yn atgyfeirio at wasanaethau plant - felly mae gweithredu'n tueddu i gael ei arwain gan amddiffyn plant. Fodd bynnag, gallai hyn ddibynnu ar denant yn bod yn barod i ddatgelu'r ACE yn eu cartrefi, neu fod tystiolaeth yn amlwg, felly efallai na fydd tai yn ymwybodol o'r mater yn aml. Yn gyffredinol, mae materion amddiffyn plant yn cynnwys ACEs megis cam-drin corfforol neu rywiol, trais yn y cartref, ac esgeulustod emosiynol, corfforol neu ariannol difrifol. Mewn achosion megis rhieni'n gwahanu, iechyd meddwl, carcharu neu gamddefnyddio sylweddau, mae'n llai clir gan y gall yr effeithiau ar blant amrywio ar lefel unigol, felly efallai dim ond os cyfunir hyn ag arwyddion o gam-drin y byddai gweithredu'n digwydd. Mae tai yn fwy tebygol o weithredu os yw'r ACE hanesyddol yn cael effaith ar y denantiaeth. Mae rhai meysydd tai, megis prosiectau neu wasanaethau penodol ee rhianta, mewn sefyllfa well i ddarparu cefnogaeth na rheoli tai cyffredinol.


**Table A2: Gweithredu ar ACEs blaenorol mewn oedolion ac ACEs cyfredol mewn cartrefi**

| ACE | Oedolion (hanesyddol) | | | | Plant (cyfredol) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canolrif (IQR) | Isel 1-3 n (%) | Canolig 4-6 n (%) | Uchel 7-10 n (%) | Canolrif (IQR) | Isel 1-3 n (%) | Canolig 4-6 n (%) | Uchel 7-10 n (%) |
| Cam-drin geiriol | **5.0 (1.5-7)** | 13 (27.7) | 15 (31.9) | 19 (40.4) | **8.0 (8-10)** | 3 (6.4) | 15 (31.9) | 29 (61.7) |
| Cam-drin corfforol | **5.0 (4-9.5)** | 10 (21.3) | 14 (29.8) | 23 (48.9) | **10.0 (8-10)** | 0 (0.0) | 6 (12.8) | 41 (87.2) |
| Cam-drin rhywiol | **6.0 (5-10)** | 7 (14.9) | 13 (27.7) | 27 (57.4) | **10.0 (9-10)** | 0 (0.0) | 5 (10.6) | 42 (89.4) |
| Rhieni'n gwahanu | **5.0 (1.5-7)** | 15 (31.9) | 13 (27.7) | 19 (40.4) | **5.0 (2-8)** | 14 (29.8) | 14 (29.8) | 19 (40.4) |
| Trais yn y cartref | **7.0 (5-10)** | 4 (8.5) | 13 (27.7) | 30 (63.8) | **10.0 (8-10)** | 0 (0.0) | 4 (8.5) | 43 (91.5) |
| Salwch Meddwl | **7.0 (5-10)** | 5 (10.6) | 13 (27.7) | 29 (61.7) | **8.5 (5-10)** | 1 (2.1) | 14 (29.8) | 32 (68.1) |
| Alcohol | **7.0 (5-10)** | 7 (14.9) | 12 (25.5) | 28 (59.6) | **8.0 (5-10)** | 2 (4.3) | 13 (27.7) | 32 (68.1) |
| Cyffuriau | **7.0 (5-10)** | 7 (14.9) | 12 (25.5) | 28 (59.6) | **9.0 (5-10)** | 1 (2.1) | 12 (25.5) | 34 (72.3) |
| Carcharu | **5.0 (2.5-10)** | 11 (23.4) | 11 (23.4) | 25 (53.2) | **7.5 (5-10)** | 10 (21.3) | 10 (21.3) | 27 (57.4) |

## Cyfrifoldeb y sector tai i gefnogi tenantiaid yr effeithir arnynt gan ACEs

Gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oedd gan eu sefydliad gyfrifoldeb i **gefnogi** tenantiaid sydd wedi profi ACEs yn ystod plentyndod, neu gartrefi â phlant yn bresennol lle mae ACEs yn amlwg (1 = ddim o gwbl, 10 = yn eithriadol; Graff A3). I oedolion ag ACEs blaenorol, mae canolrif o 7.0 (IQR 5-10) a chartrefi sydd â chyfrifoldebau ACE cyfredol â chanolrif o 8.0 (IQR 7-10), yn awgrymu bod y sector tai yng Nghymru yn gyffredinol yn teimlo y dylai gefnogi tenantiaid sy'n oedolion yr effeithiwyd arnynt gan ACEs yn ystod eu plentyndod yn ogystal â chartrefi tenantiaid â phlant yr effeithir arnynt gan ACE cyfredol. Gellir gweld ystod o ymatebion, lle nad oedd cyfran lai o ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt gyfrifoldeb cryf.

**Graph A3: Cyfrifoldeb i gefnogi ACEs blaenorol mewn oedolion ac ACEs cyfredol mewn cartrefi**



## Pa sefydliadau ddylai gymryd cymryd rhan mewn cefnogi tenantiaid a effeithir gan ACEs

Gofynnwyd i ymatebwyr pa sefydliadau ddylai fod yn gysylltiedig â chynorthwyo tenantiaid yr effeithir arnynt gan ACEs blaenorol (oedolion) ac ACEs cyfredol (teuluoedd, Tabl 5). Roedd 87% o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai eu sefydliad eu hunain fod yn gysylltiedig â chynorthwyo tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan brofiadau blaenorol ac roedd 89% yn teimlo y dylai eu sefydliad fod yn rhan o gefnogi teuluoedd tenantiaid lle mae ACEs yn gyfredol. Yn y ddau achos, teimlwyd bod gan y sector iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol y cyfrifoldeb uchaf dros gefnogi oedolion a phlant. Mae'n amlwg bod cefnogi tenantiaid agored i niwed yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb amlasiantaeth. Teimlwyd gan yr ymatebwyr mai'r tenantiaid eu hunain sydd â'r cyfrifoldeb lleiaf i gefnogi eu cyfoedion, o'u cymharu â sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector.

Roedd sefydliadau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys ymwelwyr iechyd, grwpiau a arweinir gan y gymuned a all ddarparu gweithgareddau llesiant, a'r gymuned ehangach. Yn aml, nodwyd bod cyfrifoldeb i ymdrin ag ACEs gan yr holl unigolion ac asiantaethau sy'n dod i gysylltiad â thenantiaid agored i niwed, gan gynnwys asiantaethau cymorth a statudol. Teimlwyd bod ACEs yn 'gyfrifoldeb i bawb' a bod angen meddwl yn greadigol i dorri'r cylch ACEs. Teimlir bod angen i ACEs, yn enwedig mewn cartrefi tenantiaid â phlant, gael dull amlasiantaeth cydlynol.

**Table A3: Sefydliadau a ddylai fod yn gysylltiedig â chynorthwyo tenantiaid ag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd)**

| | Oedolion (hanesyddol) n (%) | Plant (cyfredol) n (%) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau cymdeithasol | 47 (100.0) | 47 (100.0) |
| Sector iechyd | 46 (97.9) | 47 (100.0) |
| Timau diogelu | 44 (93.6) | 47 (100.0) |
| Awdurdodau lleol | 44 (93.6) | 45 (95.7) |
| Timau trais yn y cartref | 43 (91.5) | 46 (97.9) |
| Amddiffyn plant | 43 (91.5) | 45 (95.7) |
| Heddlu | 42 (89.4) | 45 (95.7) |
| Ysgolion | 41 (87.2) | 46 (97.9) |
| Fy sefydliad | 41 (87.2) | 42 (89.4) |
| Trydydd sector | 41 (87.2) | 40 (85.1) |
| Llywodraeth genedlaethol | 34 (72.3) | 34 (72.3) |
| Tenantiaid | 28 (59.6) | 32 (68.1) |

## Dulliau o gefnogi tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan ACEs

Gofynnwyd i ymatebwyr pa ddulliau neu weithgareddau a gymerwyd i gefnogi tenantiaid ag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd) (Tabl A6). Roedd dros 50% wedi hyfforddi rhai o'u staff i gefnogi tenantiaid gydag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd). Roedd ymatebwyr dros bedair gwaith yn fwy tebygol o ymgymryd â gwaith amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd gydag ACEs cyfredol, nag i denantiaid sy'n oedolion gydag ACEs hanesyddol. Nid oedd ychydig dros ddeg y cant wedi gwneud dim i gefnogi tenantiaid sy'n oedolion gydag ACEs hanesyddol. Mae ychydig dan un o bob pump eisoes yn defnyddio dull wedi'i lywio gan drawma gyda thenantiaid sy'n oedolion, ac roedd 15% wedi creu rolau swyddi arbenigol i gefnogi tenantiaid agored i niwed. Roedd pymtheg y cant (15%) yn aros am arweiniad gan gyrff eraill.

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer staff mewn anghenion cymorth ar gyfer bod yn agored i niwed ar gyfer ACEs unigol sydd ar hyn o bryd yn digwydd mewn cartrefi, megis iechyd meddwl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, PoVA (Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed), cam-drin yn y cartref, ymddygiad rheoli, camddefnyddio sylweddau, ymwybyddiaeth o hunanladdiad, cyfiawnder

troseddol, diogelwch plant; yn ogystal ag offer penodol i gefnogi tenantiaid agored i niwed fel arfer adferol. Nododd y rhai a gafodd gyfweliad, pan ddaeth i hyfforddiant mewn ACEs yn benodol, bod rhai sefydliadau'n aros nes i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ei hagenda ACEs, ac mae eraill yn rhagweithiol yn cynnig hyfforddiant ACEs.

*Rydym wedi cael hyfforddiant ACEs [...]. Rwy'n credu ein bod ni'n ffodus iawn i gael [Arweinydd Tai Hyb ACE] gyda ni, felly yr oedd [Arweinydd Tai Hyb ACE] mewn gwirionedd a ddechreuodd gyflwyno ACEs trwy'r cwmni. Felly nid ein holl staff ond y mwyafrif ... wel, mae llawer o'n staff bellach wedi cael hyfforddiant ACEs, felly maent i gyd yn ymwybodol o ACEs. Chi'n gwybod, yr hyn sy'n mynd yn dda iawn ochr yn ochr ag ACES yw'r amgylchedd wedi'i lywio gan seicolegol sy'n rhywbeth arall sydd wedi'i gyflwyno ochr yn ochr ag ACEs yn ein hosteli hefyd* (c5).

Mae gwasanaethau gwahanol mewn sefydliad unigol yn debygol o ymarfer graddau gwahanol o gefnogaeth ar gyfer tenantiaid agored i niwed, gyda rolau, gwasanaethau a phrosiectau arbenigol yn defnyddio dull wedi'i lywio gan ACEs i raddau helaethach na rolau tai sy'n gweithio gyda'r boblogaeth denantiaid gyffredinol lle maen nhw'n llai tebygol o ddod ar draws pobl sy'n agored i niwed neu ACEs yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Enghraifft yw prosiectau gofal cymdeithasol ataliol sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc i'w galluogi i nodi ac archwilio materion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys ACEs, ac i feithrin hyder a gwydnwch; neu brosiect amlasiantaeth a fydd yn cynnig cefnogaeth ymyrraeth gynnar i deuluoedd lle mae ACEs ar hyn o bryd yn bresennol.

Os cânt eu gwahodd, bydd Tai yn mynychu cynadleddau achos amlasiantaeth a grwpiau craidd, megis MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth) a MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Mae rhai sefydliadau tai yn symud i ffwrdd yn gynyddol rhag dull adweithiol tuag at denantiaethau, ac yn defnyddio dull mwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y person - dull adferol sy'n canolbwyntio ar feithrin perthynas â thenantiaid a chymunedau, gyda'r nod craidd o gynnal tenantiaethau trwy nodi gofynion cymorth o ran bod yn agored i niwed ar gyfer unrhyw denant. Mae ethos cyffredinol mewn tai ar hyn o bryd o beidio â gwahaniaethu ACEs rhag anghenion cymorth eraill tenantiaid sy'n agored i niwed, ond yn hytrach *"mae cael gweithlu gwybodus a hyfforddedig wrth asesu'r materion hyn yn hanfodol i'r llwybr ar gyfer pob unigolyn sydd wedi dioddef ACE."*

**Table A4: Camau a gymerwyd i gefnogi tenantiaid ag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd)**

| | **Oedolion (hanesyddol)** n (%) | **Plant (cyfredol)** n (%) |
|---|---|---|
| Gwaith amlasiantaeth | 29 (14.9) | 33 (70.2) |
| Hyfforddiant - rhai staff | 28 (59.6) | 26 (55.3) |
| Gofyn i arbenigwyr am gyngor | 22 (46.8) | 29 (61.7) |
| Eisoes yn rhan o'n gwaith o ddydd i ddydd | 17 (36.2) | 22 (46.8) |
| Datblygwyd canllawiau/protocolau | 10 (21.3) | 13 (27.7) |
| Crëwyd rolau swydd arbenigol | 7 (14.9) | 9 (19.1) |
| Hyfforddiant - yr holl staff | 7 (14.9) | 9 (19.1) |
| Aros am arweiniad gan gyrff eraill | 7 (14.9) | 9 (19.1) |
| Eisoes yn defnyddio dull wedi'i lywio gan drawma gyda thenantiaid | 6 (19.1) | 6 (12.8) |
| Dim | 6 (12.8) | 3 (6.4) |

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad fod tai mewn sefyllfa dda i gael y sgyrsiau cychwynnol hynny o gwmpas cefndiroedd ac ACEs ehangach, ac yn gyffredinol feithrin perthynas agos â'u trigolion, yn ogystal â gallu gweld arwyddion rhybudd yn gynnar o ran bod yn agored i niwed. Mae rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cychwyn llwybr/dull atgyfeirio nad yw'n benodol ar gyfer ACEs ar hyn o bryd ond sy'n canolbwyntio ar bryderon cyffredinol o ran bod yn agored i niwed, fel bod y bobl iawn sydd â'r hyfforddiant priodol ac ymwybyddiaeth o gwmpas anghenion cymorth yn gallu penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd.

*Nid ydym yn gwneud atgyfeiriadau yn unig ac yn gadael iddynt barhau â hynny. Byddwn yn dal i gadw mewn cysylltiad, fe wnawn ni'r hyn sydd orau iddynt. Rydym yn parhau i gael y sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' gyda nhw. Gwnawn hyn gyda phob preswylydd. Nid dim ond y rhai yr effeithir arnynt gan ACEs. Ond trwy gael y sgyrsiau hyn rydym yn adnabod yr achosion sylfaenol hynny.* (c3)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad y gellir nodi a chefnogi tenantiaid sy'n dod i'r amlwg gyda nodweddion o fod yn agored i niwed sy'n gysylltiedig ag ACEs mewn sawl ffordd yn dibynnu ar eu hanghenion ac a yw'r tenant yn barod i gael ei atgyfeirio. Gellir atgyfeirio at asiantaethau arbenigol sy'n ymdrin yn benodol â rhai mathau o drawma, megis asiantaethau cyffuriau ac alcohol, asiantaethau iechyd meddwl, ac asiantaethau dyled megis CAB (Cyngor ar Bopeth), yn ogystal â gwasanaethau gan gynnwys addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen dull ar y cyd lle mae tai a gwasanaethau yn gweithio'n gyfannol i gefnogi unigolyn a chael y gefnogaeth sydd ei hangen, gan na all tai ddarparu cefnogaeth i bopeth - ond fel landlordiaid maent eisoes yn darparu lefel benodol o gefnogaeth. Mae gan swyddogion tai sy'n gweithio mewn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig swydd amrywiol sy'n para trwy gydol y denantiaeth, gan gynnwys rhent, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans, datblygu cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol. Efallai y bydd ganddynt hyfforddiant mewn sgiliau arbenigol megis arferion adferol i'w helpu i feithrin perthynas â thenantiaid a hwyluso perthnasoedd rhwng tenantiaid a chymdogion/cymunedau. Mae rolau arbenigol mewn RSL, ond maent yn tueddu i fod yn wasanaeth bach. Mae gan RSLs eisoes ystod o ymyriadau y maent yn eu defnyddio i gefnogi tenantiaid agored i niwed. Crybwyllodd un RSL fodel o'r enw 'seren canlyniad' a ddefnyddir gyda thrigolion neu ymgeiswyr newydd i drafod yr hyn sy'n effeithio arnynt a beth sy'n bwysig iddynt, er mwyn helpu i gymryd camau gwahanol er mwyn cefnogi tenantiaid i ddysgu ymdopi ar eu pennau eu hunain.

*Gallwn weld trwy weithio mewn gwahanol feysydd, sut y gallwn ddod â'r seren honno o'r eithafion i'r arferol. Trwy roi ymyriadau gwahanol ar waith, eu cysylltu, rhoi atgyfeiriadau i mewn, a chadw gafael arnynt, nes eu bod yn teimlo'n ddigon diogel eu bod nhw'n gallu ymdopi ar eu pen eu hunain.* (c3)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad, pan fydd preswylydd yn dod i'r amlwg fel person agored i niwed, yn dibynnu ar yr hyn a ddatgelir, efallai nad darparu gwasanaeth fydd yr ateb bob tro ac y gallai cysylltu pobl â gwasanaethau gael effaith andwyol o barhau â 'diwylliant o ddibynnu ar wasanaethau'. Yn hytrach na chanolbwyntio ar brofiadau negyddol y gorffennol, y weithred gyntaf fyddai dull datblygiad cymunedol seiliedig ar asedau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei arwain ganddo. Cysylltu'r tenant yn ôl i'w gymuned a chryfhau rhwydweithiau cymunedol a phersonol er mwyn helpu i gynnal yr unigolyn a'i alluogi a'i rymuso, yn hytrach na chreu cysylltiad â gwasanaethau a fyddai'n cynyddu dibyniaeth. Gellir gwneud hyn gyda thîm o weithwyr cymunedol neu drwy ystod o ymyriadau, er enghraifft, iechyd a llesiant, a phrosiectau cymunedol. Crybwyllodd un cyfwelai brosiectau a ariennir sy'n gweithio gyda gwahanol grwpiau oedran o ran plant a phobl ifanc, er enghraifft, gwaith gyda phobl ifanc 14-25 oed i ddatblygu gwydnwch, hunan-barch a hyder a'u helpu i symud ymlaen â'u bywydau, neu brosiectau sy'n gweithio gyda phlant ifanc 0-3 mis oed, neu rieni unigol; yn ogystal â hosteli pobl ifanc, a chefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad fod prosiectau tai â chymorth yn tueddu i dderbyn tenantiaid ar sail dros dro, ond yn caniatáu gweithio gyda thenantiaid i fynd i'r afael â rhai o'u materion. Gellir defnyddio gwaith o dan y rhaglen Cefnogi Pobl i roi cymorth ychwanegol i denantiaid sy'n fwy manwl neu am gyfnod hwy. Yn ogystal â gwneud atgyfeiriadau diogelu a gweithio gyda theuluoedd â phlant anghenion uchel ynghyd ag asiantaethau, gall tai weithio'n eithaf agos gyda rhieni i fynd i'r afael ag unrhyw faterion, megis rhedeg rhaglenni cefnogi, neu brosiectau ymyrraeth teuluol i roi cefnogaeth fanwl i'r rheini sy'n ei angen. Mae prosiectau rhianta yn canolbwyntio ar adeiladu gwydnwch a pherthnasoedd, a llai am rianta argyfwng, yn hytrach yn darparu sgiliau lefel isel i gefnogi tenantiaid â phlant ifanc iawn. Yn gyffredinol, mae angen dull mwy ataliol tuag at ACEs lle mae ymwybyddiaeth yn cael ei chynyddu ac y defnyddir ymyrraeth ataliol gynnar, yn hytrach na gorfod delio â'r effaith yn ddiweddarach, o'r ACEs hynny a brofwyd yn ystod plentyndod.

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad fod yno eisoes fframwaith cyffredinol ar gyfer galluogi rhannu gwybodaeth gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn ymwneud ag iechyd, addysg, diogelwch a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), wedi'i lofnodi gan nifer o asiantaethau gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fodd bynnag, nid

oes canllawiau ar gyfer pa wybodaeth sy'n gysylltiedig ag ACEs y dylid ei rhannu, beth sy'n berthnasol, ac o dan ba amgylchiadau; er enghraifft, a ddylai'r tenant benderfynu drostynt eu hunain a ddylai'r wybodaeth sy'n berthnasol iddynt gael ei rhannu rhwng asiantaethau. Mae protocol rhannu gwybodaeth arall wedi dechrau rhwng Heddlu De Cymru a rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan gynnwys llwytho eu stoc i fyny i system NICHE yr Heddlu. Mae hyn yn galluogi cydlynwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i gysylltu â'r RSL perthnasol trwy gyfeiriad e-bost diogel pan mae achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn eu heiddo, a dylai ganiatáu ar gyfer ymyrraeth gynnar a phrosesau rhannu gwybodaeth gwell.

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad fod rhwystr wrth rannu data rhwng sectorau statudol ac anstatudol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu data y mae angen ei dorri trwy brotocolau rhannu data gwell ac adeiladu ymddiriedaeth. Gall y rheolau diogelu data newydd yng Nghymru helpu naill ai i dorri rhwystrau neu fod yn rhwystr newydd ynddynt eu hunain. Mae angen cydnabod yn fwy bod gan dai ac asiantaethau anstatudol eraill berthynas dda â thenantiaid a gallant weithredu fel ffyrdd o gaffael gwasanaethau eraill. Ar hyn o bryd, mae gan wahanol sectorau wybodaeth wahanol am ACEs pobl, ac mae angen dull cydweithredol a phartneriaeth, gan ddibynnu ar yr angen cymorth penodol, pa mor gymhleth ydyw, pa mor gyffredin ydyw, a faint o ymyrraeth sydd ei hangen o ran cefnogaeth. Ar hyn o bryd nid oes eglurder am rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau. Efallai na fydd tai yn ymwybodol o swyddogaethau cefnogi penodol sy'n digwydd mewn cartrefi sy'n cynnwys cynhadledd gofal a chynllun amlasiantaeth, hyd nes y pwynt o droi allan. Mae cyfathrebu yn aml yn un ffordd, gyda thai ar y cyrion ac yn cael eu nodi fel gwahoddedigion yn hytrach na bod ganddynt safle mwy canolog. Mae angen i asiantaethau gwahanol sy'n gweithio gydag unigolion sy'n agored i niwed weithio gyda'i gilydd mewn dull cydlynol sy'n cael ei arwain gan y person, gan atal yr unigolyn rhag cael ei orlwytho gydag asiantaethau gwahanol neu heb rwystrau mawr i wasanaethau, megis toriadau ariannol.

> *Bydd ein swyddogion, gan gynnwys ein swyddogion cynnal a chadw, ein swyddogion tai ac ati yn gweld pethau fydd wedi'u cuddio oddi wrth weithwyr cymdeithasol. Dydw i ddim wir yn credu bod gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried tai fel partner craidd, ac rwy'n credu eu bod yn colli allan o ran hynny.* (c5)

## Rhwystrau i gefnogi tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan ACEs

Gofynnwyd i ymatebwyr pa **rwystrau** yr oeddent yn eu hwynebu wrth gefnogi tenantiaid gydag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd) (Tabl A7). Ychydig iawn o ymatebwyr oedd o'r farn nad cyfrifoldeb eu sefydliad oedd cefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan ACEs, ond teimlai tua 90% o ymatebwyr bod rhwystrau i gefnogi tenantiaid ar hyn o bryd. Roedd y rhwystrau mwyaf yn cynnwys yr angen am well gweithio mewn partneriaeth a bod angen mwy o wybodaeth am yr hyn i'w wneud.

Yn ystod y cyfweliadau, dywedwyd bod y sector tai yn aros am eglurhad o rolau, a phwy sydd yno i gefnogi'r broses ar lefel amlasiantaeth. Nid oes digon o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyhoeddusrwydd eto ynghylch ACEs. Nid yw pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio'n ddiwylliannol yn yr un ffordd, felly nid yw pob un yn gweld ACEs fel eu rôl. Mae angen pwysau o'r brig i lawr mewn cwmni i sicrhau dull cwmni gyfan o ran ACEs. Mae angen deall yn glir yr agenda sydd gan Lywodraeth Cymru ar ACEs o ran tai cymdeithasol, yn enwedig sut mae'n effeithio ar arbenigedd ac adnoddau, ac unrhyw fframwaith neu hyfforddiant sy'n cael ei weithredu. Disgwylir yn gynyddol i RSL ysgwyddo cyfrifoldebau statudol y dylai awdurdodau lleol fod yn eu cyflawni heb adnoddau ychwanegol – incwm neu gymorth, neu ymgynghori. Mae rôl ACEs yn y sector rhentu preifat ac mewn perchnogion tai hefyd yn berthnasol..

> *Mae'n teimlo'n weithiau bod peth arall yn cael ei ychwanegu at ein bwa gyda dim ymgynghori neu adnoddau er mwyn ein galluogi i allu cefnogi … oherwydd ar ddiwedd y dydd, dyna'r hyn yr ydym am ei wneud, rydym am gefnogi pobl a sicrhau y gallant gael bywydau cyflawn, ond yna mae arnom angen Llywodraeth Cymru i gydnabod nad oes gennym ni gyllideb ddiddiwedd ac rydym eisoes yn cael trafferth ymdopi.* (c6)

Dywedodd ymatebwyr bod rhwystrau i dai yn gallu cefnogi tenantiaid ag ACEs yn cynnwys diffyg cyllid i ddarparu dulliau mwy ataliol ac ymyrraeth gynnar; yr amser, yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i reoli pryderon cynyddol rhag ymddygiadau andwyol gan fod y rhain eisoes dan bwysau, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd sy'n aml yn cwmpasu sawl cenhedlaeth. Anhawster o ran gallu atgyfeirio

at asiantaethau cefnogi arbenigol ar adeg atal ac argyfwng, rhestrau aros, a'r angen am ymateb gwell pan gaiff achosion eu hatgyfeirio. Mae angen symud o ddull sy'n cael ei arwain gan ddiffyg, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn rhwystr i gefnogi tenantiaid agored i niwed. Mae pryderon na ddylai tai fod yn asesu ACEs fel rhan o'r broses ymgeisio am denantiaeth gyffredinol. Roedd rhai yn teimlo bod diffyg cydnabyddiaeth o rôl tai ymysg asiantaethau a gwasanaethau eraill, yn enwedig y rôl sydd gan dai wrth gynnig gwasanaethau gofal a chymorth. Er nad oes gan Dai sgiliau, adnoddau neu offer arbenigol i ddelio â chanlyniadau bod yn agored i niwed, mae angen i Dai fod yn rhan o gytundebau diogelu amlasiantaeth neu brotocolau i ddelio â thenantiaid agored i niwed yr effeithir arnynt gan ACEs. Mae angen dull cyffredin at ACEs ar draws pob sector lle mae modd rhannu gwybodaeth am denantiaid agored i niwed rhwng asiantaethau a gwasanaethau. Teimlwyd bod angen mwy o ymchwil i ddeall mynychder ACEs ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol o'i gymharu â grwpiau poblogaeth eraill. Ar hyn o bryd mae ffocws ar denantiaid yn gorfod hunangyfeirio am gymorth tenantiaeth, ac efallai na fyddant yn gallu gwneud hynny pan maent yn fwyaf anghenus. Ystyrir toriadau sector cyhoeddus a diwygio lles fel rhwystrau i gefnogi tenantiaid agored i niwed. Mynegwyd pryder y gallai dull a arweinir gan ACE wrthsefyll gwaith wrth ymgorffori dulliau adferol a dull cymunedol sy'n seiliedig ar asedau.

Mae rhwystrau i gefnogi teuluoedd tenantiaid sy'n agored i niwed â phlant yn cynnwys diffyg sgiliau ac adnoddau, diffyg fframwaith asesu risg neu brotocolau safonol ar gyfer casglu a nodi ACEs a ddefnyddir gan bob asiantaeth, a'r trothwy presennol ar gyfer ymyrraeth statudol ac anawsterau cael mynediad at wasanaethau megis CAMHS ( Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc). Un o'r rhwystrau mawr yw nad yw rhai staff tai yn gweld ACEs fel eu cyfrifoldeb hwy, ac yn hytrach y dylai gael ei ysgwyddo gan y corff statudol cyfrifol.

**Table A5: Rhwystrau i gefnogi tenantiaid ag ACEs blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd)**

| | **Oedolion (hanesyddol)** n (%) | **Plant (cyfredol)** n (%) |
|---|---|---|
| Angen mwy o wybodaeth | 33 (70.2) | 33 (70.2) |
| Angen gwell gweithio mewn partneriaeth | 29 (61.7) | 32 (68.1) |
| Angen hyfforddiant | 24 (51.1) | 24 (51.1) |
| Angen mwy o gyllid | 24 (51.1) | 22 (46.8) |
| Angen i rywun arall arwain | 7 (51.1) | 11 (23.4) |
| Angen fframwaith gweithredu | 23 (48.9) | 22 (46.8) |
| Angen gwybod sut i weithredu/beth i'w wneud | 23 (48.9) | 23 (48.9) |
| Angen offer i weithredu | 23 (48.9) | 17 (36.2) |
| Angen offer i nodi | 22 (46.8) | 24 (51.1) |
| Dim rhwystrau | 5 (10.6) | 5 (10.6) |
| Nid ein cyfrifoldeb ni ydyw | 5 (10.6) | 3 (6.4) |

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn nodi y gallai fod gan unigolion sy'n profi ACEs ymddygiadau cysylltiedig, megis ôl-ddyledion rhent sylweddol, difrod i eiddo, ymddygiad gwrthgymdeithasol efallai nad yw RSLs am ei dderbyn, felly gall unigolion mewn tai â chymorth dros dro ddod o hyd i anawsterau o ran symud i gartrefi parhaol. Teimlir na fydd rhai unigolion, ni waeth faint y byddant yn cael eu cefnogi, yn helpu eu hunain. Teimlai'r rhai a gafodd gyfweliad y gallai eu tenantiaid wynebu 'rhwystrau o ran cael eu barnu' gan y sefydliadau y byddai tai yn hoffi eu hatgyfeirio atynt i gael cymorth, er enghraifft, bod y ffordd y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gweithredu'n 'ddewis o ran ffordd o fyw' yn hytrach na'n cael ei achosi gan iechyd meddwl neu amgylchiadau eraill. Gall labelu unigolion fod yn rhwystr weithiau, yn enwedig pan welir label fel pasbort i wasanaethau. Er enghraifft, unigolion sy'n cyflwyno eu hunain fel NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn hytrach nag fel pobl ifanc, *'Yr hyn nad ydym am ei wneud yw datblygu diwylliant lle maen nhw'n galw eu hunain ... Rwy'n NEET gyda phedwar ACE, chi'n gwybod?'* (c5). Efallai y bydd unigolion sy'n mynd i mewn i wasanaethau wedi cael eu 'hasesu o ran risg am y rhan fwyaf o'u bywydau', sef yr ochr negyddol i'w cefnogi. Mae hyn yn gorfodi'r unigolyn i wynebu stori ei fywyd dro ar ôl tro. Yn hytrach, bydd symud tuag at asesu anghenion, sy'n canolbwyntio ar y pethau cadarnhaol amdanynt, yn helpu i greu perthynas, ymddiriedaeth a deialog agored.

Trafododd y rhai a gafodd gyfweliad sut y gallai materion polisi cenedlaethol fod yn rhwystrau i ddull wedi'i lywio gan ACE tuag at denantiaid a lleihau digartrefedd, gan gynnwys tai cymdeithasol wedi'i seilio ar Ddiwygio Lles, cyflwyno Credyd Cyffredinol, terfynau ar fudd-dal a threth ystafell wely. Mae'r rhain i gyd yn effeithio ar y gefnogaeth y gall tai ei chynnig, ac mae gallu'r tenant i dalu rhent a chynnal tenantiaethau yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau cystadleuol wrth gefnogi tenantiaid – yn benodol gan fod cymorth ariannol ar gyfer asiantaethau allanol, megis CAB a gwasanaethau cyngor lleol yn cael ei leihau, felly mae tai yn teimlo bod rhaid iddo geisio llenwi bylchau. Mae pryderon ynglŷn â diwygio lles a llety a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed, yn enwedig gan fod posibilrwydd eithaf uchel mai nifer sylweddol o'r bobl dan 35 oed sydd mewn tai cymdeithasol yw'r rhai sydd ag ACEs.

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad y gallai fod gan RSLs dîm bach iawn gyda swyddogaeth gefnogi benodol (er enghraifft tîm o bump, o'i gymharu â chyfanswm o 300 o staff), sydd yno i gefnogi Swyddogion Tai ag arbenigedd neu allu ychwanegol. Y galw mwyaf ar eu hamser ar hyn o bryd yw helpu tenantiaid i dalu eu rhent, gan mai dyma'r risg fwyaf i dai cymdeithasol fel busnes. Mae hyn yn rhwystr i gefnogi eu tenantiaid yn fwy cyffredinol y tu hwnt i allu ariannol, ac mae gorfodaeth a sgyrsiau o gwmpas ACEs yn weithgareddau sy'n cystadlu ar gyfer adnoddau. Teimlir bod gan wasanaethau cymorth eu heriau eu hunain gyda chyfyngiadau a osodwyd gan raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran yr hyn y mae'n ei ddiffinio fel 'cefnogaeth'. Yn gyffredinol, mae hynny'n cael ei arwain gan anghenion yn hytrach nag asedau/cryfderau, ac yn gwrthdaro â sut mae rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eisiau gweithio trwy gefnogi tenantiaid yn y gymuned.

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad fod angen cael mwy o gydnabyddiaeth ar gyfer faint o waith y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei wneud eisoes o ran cefnogi tenantiaid, a hynny gan bob rhan o'r sector cyhoeddus a phartneriaid, ond hefyd gan gymunedau a'r cyhoedd eu hunain. Mae'n rhaid i dai gynnal ei fusnes craidd, sef bod yn landlord, ac ni all ysgwyddo cyfrifoldebau gwasanaethau cymorth eraill; er y gallai o bosibl gynnig mwy o gefnogaeth lefel isel fel dosbarthiadau llesiant emosiynol neu adeiladu hyder. Unwaith y bydd tenantiaid yn cael eu nodi gan dai fel rhai y mae angen cymorth arnynt, gwelwyd atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol neu dimau iechyd meddwl cymunedol fel rhwystr sylweddol. *'Mae cael yr agwedd gan dimau iechyd meddwl cymunedol, sy'n dweud, wel dyna'r ffordd o fyw y maen nhw wedi'i dewis, ac ni fyddant yn codi atgyfeiriadau gan dai, mae'n ei gwneud yn anodd iawn'* (c3). Efallai y dywedir wrth dai, oni bai bod y meddyg teulu yn atgyfeirio'r tenantiaid, na fyddant yn derbyn atgyfeiriadau. Yn aml, oni bai fod tai wedi cychwyn camau gorfodaeth neu achos llys, nid oes cymorth ar gael. Ymddengys bod argyfwng yn sbardun i gychwyn y broses o gymorth allanol.

Cododd dau fater o ran aildrawmateiddio yn y cyfweliadau, yn gyntaf, bod yn rhaid i staff weithio mewn ffordd na fydd yn aildrawmateiddio tenantiaid pan fyddant yn gweithio wyneb yn wyneb gyda hwy, o ran eu geiriau, eu hymddygiad a'u gweithredoedd. Mae'n bwysig nad oes angen gofyn yr un cwestiynau i denantiaid sy'n agored i niwed dro ar ôl tro a gwneud iddynt ailfyw eu trawma, ac os yw tenantiaid yn agored ac yn siarad yna mae angen bod rhywbeth yn ei le ar eu cyfer ac i wneud yr amgylchedd yn ddiogel iddyn nhw. Yn ail, efallai y bydd gan y staff eu hunain ACEs, neu broblemau iechyd meddwl, neu efallai eu bod yn ddioddefwyr cam-drin yn y cartref. Felly gall gofyn i staff ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACEs hefyd achos trawma. Mae angen i staff tai fod yn barod, yn fedrus ac yn wydn, ac yn gallu delio â thenantiaid sy'n dangos materion o ganlyniad i ACEs, heb aildrawmateiddio. I staff, gall delio â datgeliadau o ACEs fod yn straen, felly byddai rhwydwaith cefnogi myfyriol ar gyfer staff gyda'u grŵp cyfoedion eu hunain, neu gefnogaeth gan reolwr neu oruchwyliaeth glinigol os bydd angen, yn helpu. Wrth i sefydliad ddod yn fwy ymwybodol o ACEs, bydd angen iddo ystyried sut i ymateb i staff sy'n cael eu haildrawmateiddio gan yr hyn y maent yn ei brofi yn y gwaith neu yn ystod hyfforddiant.

> *Maen nhw wedi cael hynny gyda'r gwaith yr ydym yn ei wneud o gwmpas, fel y dywedais, cam-drin yn y cartref, a'r hyfforddiant yr ydym ... ac ymwybyddiaeth rydym wedi'i wneud gyda staff, gan gydnabod ... chi'n gwybod, os yw un o bob pedair menyw yn dioddef cam-drin yn y cartref, efallai y bydd un o bob pedwar o'n staff ni wedi hefyd ... ac mae pobl yn ymateb ... wedi ymateb yn annisgwyl mewn hyfforddiant cam-drin yn y cartref oherwydd ei fod yn dod â'u profiadau yn ôl ac efallai y bydd hyn yn digwydd …* (c5)

## Cefnogi newid: goresgyn rhwystrau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu sefydliadau yn ei wneud i oresgyn rhwystrau i gefnogi tenantiaid agored i niwed yr effeithir arnynt gan ACES blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd) (Tabl A8) . Mae dros 80% yn cymryd rhan mewn gwaith amlasiantaeth, ac ychydig iawn oedd yn teimlo nad cyfrifoldeb y sefydliad oedd goresgyn rhwystrau. Dywedodd ymatebwyr fod cymryd rhan mewn gwaith amlasiantaeth a chryfhau perthnasoedd gydag asiantaethau statudol a gwasanaethau eraill yn allweddol, yn ogystal â datblygu dull cyson o nodi ACEs a chymryd camau priodol pan amlygir gwendidau a phryderon tenantiaid. Bydd gwaith mewn ardaloedd, lle gall staff gael gwell dealltwriaeth o'u tenantiaid a'u teuluoedd, yn helpu i wella'r broses o adnabod materion ac ACEs. Mae hyfforddi staff wedi helpu i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut mae ACEs yn effeithio ar unigolion ac yn ei dro eu cyfleoedd bywyd.

**Table A6: Camau i oresgyn rhwystrau i gefnogi tenantiaid ag ACES blaenorol (oedolion) a chyfredol (teuluoedd)**


| | n (%) |
|---|---|
| Cymryd rhan mewn gwaith amlasiantaeth | 38 (80.9) |
| Blaenoriaethu'r maes gwaith hwn | 16 (34.0) |
| Newid y ffordd yr ydym yn casglu data i gefnogi achos dros newid | 16 (34.0) |
| Aros am arweiniad gan gyrff eraill | 14 (29.8) |
| Nid ein cyfrifoldeb ni ydyw | 1 (2.1) |

## Cefnogi newid: mynychder ACEs yn rôl tai cymdeithasol yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddai ACEs yn cymryd rôl fwy amlwg yng ngwaith eu sefydliad yn y dyfodol ar raddfa Likert 10 pwynt (1 = ddim o gwbl, 10 = yn eithriadol). Mae ymateb cymedrig o 7.70 (SD 1.999) yn awgrymu y canfyddir yn gyffredinol y byddai ACEs yn gwneud hynny (Graff A4).

Nodwyd nad oedd y Fframwaith Canlyniadau Rhaglen Cefnogi Pobl sydd â dylanwad mawr ar y sector Tai, wedi'i alinio ag ACEs, a fyddai'n helpu sefydliadau Tai i alinio eu canlyniadau sy'n gysylltiedig â chymorth tenantiaeth i bobl agored i niwed ag ACEs. Mae angen cyllid a phartneriaethau cydweithredol sy'n gallu delio â bod yn agored i niwed yn ataliol ac mewn argyfwng, yn ogystal â rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff tai. Gwelir bod credyd cyffredinol yn creu rôl fwy amlwg i'r sector tai wrth ddelio â bod yn agored i niwed.

**Graff A4: Rôl fwy amlwg i ACEs yng ngwaith y sefydliad yn y dyfodol?**



Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod y drafodaeth, y ffocws a'r ymwybyddiaeth gynyddol o gwmpas ACEs yn gadarnhaol ac yn annog gweithredu. Teimlwyd y byddai tai yn canolbwyntio mwy ar ACEs a phrosiectau wedi'u llywio gan drawma yn y dyfodol. Mae'r defnydd o'r term ACEs - 'ymadrodd bachog' - yn ddefnyddiol os yw'n helpu pobl sydd â ffyrdd o fyw anhrefnus i gael gwasanaethau sy'n gallu bodloni eu hanghenion yn well.

*mae'n bwysig iawn bod pobl yn dangos mwy o ddealltwriaeth o ran ACEs, a sut mae'n effeithio ar bobl, ac efallai y bydd ganddynt fwy o gydymdeimlad o ran sut mae rhai pobl wedi cyrraedd lle maent yn eu taith bywyd, a bod ychydig, ychydig yn fwy cymwynasgar, yn hytrach na'n feirniadol.* (c1)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad na fyddai ymwybyddiaeth gynyddol o ACEs yn arwyddocaol o ran cefnogaeth ac ymgysylltiad cynyddol, gan y bydd tai yn ymgysylltu â'r un grŵp cleientiaid agored i niwed gyda'r un ymddygiadau cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd fframwaith sy'n egluro sut i nodi ac ymgysylltu'n briodol ag asiantaethau, a llwybrau cyfeirio, yn galluogi gweithio mwy effeithlon.  O ganlyniad i broffil ACEs yn cynyddu, mae sgyrsiau'n digwydd o fewn sefydliadau rhwng gwahanol swyddi, megis swyddogion tai, cyfreithwyr a rheolwyr tai, i ddatrys yr hyn sy'n digwydd yn hytrach na symud problemau o gwmpas. Yn y dyfodol, byddai tai yn hoffi gweld eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau, pan fydd gan denant anghenion cymorth y tu hwnt i'r hyn y gall tai ei gwrdd yn fewnol, er mwyn i dai fod yn fwy eglur ynghylch yr hyn y gall asiantaethau ei wneud neu pwy sydd yno i gefnogi'r broses honno.

*Does dim strwythur. Mae'n debyg mai dyna'r peth yr wyf yn meddwl sydd ei angen. Does dim strwythur, yn sicr nid ar lefel leol, a dwi'n gwybod, mae disgwyliadau ar lefel genedlaethol, o ran sut, ar ddull partneriaeth amlasiantaeth, y gallwn ni fod yn sicrhau'r atebion cywir ar gyfer trin ACEs.* (c2)

Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo bod tai yn ganolog a'r hyn sy'n sbarduno pawb, ond yn aml yn teimlo ei fod ar y cyrion o safbwynt rhanddeiliaid eraill. Gallai tai gael rôl fwy canolog, yn enwedig wrth ddarparu mynediad i unigolion y gall yr arbenigwr wedyn weithio gyda nhw. Mae gan staff tai fynediad digynsail a rheolaidd i gartrefi pobl, gyda photensial mawr ar gyfer casglu neu arsylwi a nodi materion. Yn ogystal â chreu amgylchedd dibynadwy i denantiaid rannu gwybodaeth yn ddiogel ac er mwyn i dai ddelio â'r mater neu ei ddwyn ymlaen. Efallai y bydd tenantiaid agored i niwed yn amharod i ymgysylltu ag asiantaethau eraill, oherwydd iddyn nhw mae eu ACEs yn gysylltiedig â rhai o'r gwasanaethau hynny, felly gall tai fod yn gyfrwng mewn rhai achosion. Yr her yw *'Gweithio allan sut ydym yn gwneud hynny. A'r hyn yr ydym yn ei wneud. A chael lefel o, ac efallai ychydig mwy o gysondeb? '* (c4) Un model fyddai 'hyb ACEs' lle mae'r holl wasanaethau statudol ar gael, felly gall yr unigolyn dderbyn lefel gyfannol o gymorth, gyda gofal plant a meithrinfeydd, yn ogystal â phrosiectau cymunedol megis banciau bwyd a thai, fel ni chaiff pobl eu pasio o un gwasanaeth i'r llall ond yn caniatáu mynediad i'r gefnogaeth emosiynol sydd ei angen i oresgyn ACEs. Byddai angen sbarduno hyn ar lefel polisi cenedlaethol.

*Yr hyn y byddwn yn ei ragweld fyddai timau rhanbarthol, timau amlasiantaeth o fewn yr un lle, a dw ddim yn meddwl ... oni bai fod rhywbeth tebyg yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, sy'n amlwg yn mynd i ddefnyddio swm enfawr o adnoddau, y mae angen ei gefnogi gan  [Lywodraeth] Cymru, yna ni chredaf y byddai'n deg cyflwyno'r agenda hwn heb y lefel honno o gefnogaeth.* (c6)

Trafododd rhai o'r rhai a gafodd gyfweliad fod eu sefydliadau eisoes yn defnyddio dull o feddwl am systemau tuag at denantiaid agored i niwed lle nad oes gormod o weithdrefnau (llywodraethiant) na  rhestrau gwirio, ac yn galluogi staff i ymgymryd â'u gwaith yn hyblyg, mewn ffordd yr oeddent yn teimlo oedd yn fwy cydnaws â dull ACE. Dyluniwyd y dull systemau hwn trwy ymgynghori â thenantiaid i wella sut y maent yn darparu eu gwasanaeth. Drwy'r ymgynghoriad, canfuwyd bod tenantiaid y credid eu bod yn gwneud yn dda yn cael anhawster mewn sawl ffordd mewn gwirionedd, ond dylai'r cymorth hwnnw ganolbwyntio ar ganfod ffyrdd o ailgysylltu tenantiaid â'u cymunedau, lleihau unigedd, meithrin ymgysylltiad, ysbryd, gweithgareddau a dinasyddiaeth gymunedol er mwyn eu cefnogi yn hytrach na chyfeirio trigolion i 15 o wahanol wasanaethau. Mae angen deall yr hyn sy'n gwneud pobl sydd wedi profi ACEs yn wydn, yn hytrach na chategoreiddio pobl mewn cysyniad o ddu a gwyn o gael ACEs a chanlyniadau niweidiol.

*Mae cael sgyrsiau gyda'r bobl sydd â'r profiadau andwyol hynny, ond yn goresgyn y trafferthion, yna yn sicr y mae'r hud, ym mha brofiad sydd ganddynt, a dysgu oddi wrth beth, beth sydd, beth sydd wedi gweithio'n dda iddyn nhw, oherwydd yr wyf yn poeni am y math o agwedd a ddysgwyd o edrych ar orffennol pobl am broblemau, fel rhyw fath o lasbrint ar gyfer eu dyfodol.* (c4)

Nododd y rhai a gafodd gyfweliad, yn enwedig ar gyfer tai dros dro, fod tuedd tuag at adeiladu mwy o amgylcheddau wedi'u llywio gan seicoleg y tu allan i'r agenda ACE - sy'n berthnasol i ACEs a bod yn agored i niwed. Gallai hyn symud ymhellach tuag at ddylunio amgylcheddau ystadau cyfan yn y dyfodol. Gellid addasu hyfforddiant o sectorau eraill i addysgu tai ynglŷn â sut i ddelio ag effaith ACEs ac i allu nodi pryderon yn gywir ac yn gynnar, y maent eisoes wedi canfod sy'n wir o gwmpas y gwaith y mae tai wedi bod yn ei wneud ar wella'r ymateb i gam-drin yn y cartref.

# Atodiad B: ACEs ac Adolygiad o Dystiolaeth ar Ddigartrefedd

## Crynodeb o'r Canfyddiadau, Natalie Farr, lleoliad yn CIH Cymru, Chwefror 2018

Mae'r crynodeb canlynol yn darparu gwybodaeth a gafwyd o ddadansoddi tueddiadau a themâu gyda'r llenyddiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r adolygiad llawn yn nodi ac yn myfyrio ar bum thema allweddol, gan ddod i ben trwy ganolbwyntio ar rôl adfer a gwydnwch fel y ffactor allweddol i liniaru a mynd i'r afael ag ACEs.

### 1. Profiadau Blynyddoedd Cynnar ac ACEs fel ffactorau risg ar gyfer digartrefedd yn y dyfodol

- Gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) gael canlyniadau negyddol ar draws bron pob maes bywyd.
- Mae'r straen hir, anrhagweladwy sy'n gysylltiedig ag ACEs yn fath o drawma, a gall ei effaith niweidio ymennydd plentyn wrth iddo ddatblygu.
- Gall profiadau trawmatig amharu ar wybyddiaeth plentyn (diffygion IQ), effeithio ar ei ymddygiad (anhawster wrth reoleiddio emosiynau) ac amharu ar ei ddatblygiad cymdeithasol (anhawster wrth ffurfio cysylltiadau)
- Mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio at gysylltiadau cryf rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a digartrefedd yn nes ymlaen mewn bywyd.
- Ymhlith y poblogaethau digartref a gynhwysir yn y llenyddiaeth, mae ACEs yn gyffredin ac yn dreiddgar.
- Mewn un astudiaeth, adroddodd bron i 90% o gyfranogwyr digartref hanes o leiaf un ACE a dywedodd mwy na hanner bod ganddynt bedwar neu fwy.
- O ran darparu gwasanaethau, mae pwysigrwydd *ymyrraeth gynnar* yn cael ei bwysleisio, yn ogystal â'r angen i gymryd hanes blaenorol o ACEs i ystyriaeth wrth gynorthwyo poblogaethau digartref.

### 2. Digartrefedd pobl ifanc a ffactorau risg

- Mae hanes o ACEs yn gyffredin ymhlith poblogaethau pobl ifanc sy'n ddigartref.
- Amlygodd astudiaeth arall gysylltiad rhwng ACEs ac ansefydlogrwydd tai fel oedolyn ifanc (18/19 oed). Roedd y canfyddiadau hyn yn benodol i ddynion lleiafrifol rhywiol, ifanc.
- Roedd profiadau plentyndod trawmatig (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau gan rieni, cam-drin corfforol, esgeulustod emosiynol a gwrthdaro teuluol) yn uniongyrchol gysylltiedig â rhai penderfyniadau pobl ifanc i redeg i ffwrdd o'u cartref; a arweiniodd, yn y pen draw, atynt yn dod yn ddigartref.
- I lawer o bobl ifanc, mae cael eu hamlygu i brofiadau trawmatig yn parhau ar ôl iddynt ddod yn ddigartref.
- Mae'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â digartrefedd pobl ifanc yn tanlinellu pwysigrwydd *ymyrraeth gynnar.*

### 3. Y berthynas rhwng ACEs a'r risg o Gamddefnyddio Sylweddau yn arwain at ddigartrefedd

- Gall ACEs gyfrannu at fabwysiadu ymddygiadau negyddol, megis camddefnyddio sylweddau, ymhlith oedolion.
- Mae un astudiaeth yn awgrymu bod poblogaethau pobl ifanc digartref yn dueddol o ddioddef

o broblemau camddefnyddio sylweddau *cronig* (yn aml mewn cysylltiad ag iechyd meddwl gwael), y mae'r ddau ohonynt yn fwy tebygol o ddilyn llwybr cronig ymhlith y rheini sydd â hanes o ACEs.

- Mewn un astudiaeth, disgrifiodd menywod ddigartref 'gylch', lle roedd camddefnyddio sylweddau yn cyfrannu at ddigartrefedd a digartrefedd yn cyfrannu at gamddefnyddio sylweddau. Ar gyfer y menywod hyn, roedd digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau yn *cydfodoli*.
- Mae'r llenyddiaeth yn nodi cyfyngiadau yn y ddarpariaeth gwasanaeth. Cyn dod yn ddigartref, roedd llawer o gyfranogwyr wedi dod i gysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a/neu wasanaethau ACE.
- Mae *ymyrraeth gynnar* yn cael ei argymell, a hefyd gwasanaethau integredig, wedi'u cydlynu a'u targedu, er mwyn atal neu ddileu canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig ag ACE, camddefnyddio sylweddau a digartrefedd.

## 4. Y berthynas rhwng ACEs a'r risg o broblemau Iechyd Meddwl cyfredol yn arwain at ddigartrefedd

- Mae'r berthynas rhwng problemau iechyd meddwl a digartrefedd yn gymhleth. Gall problemau iechyd meddwl fod yn achos ac yn ganlyniad i ddigartrefedd.
- Mae ACEs a phroblemau iechyd meddwl yn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Mae'r ffactorau hyn yn aml yn cyd-ddigwydd ac/neu yn bodoli ochr yn ochr â ffactorau risg hysbys eraill, megis camddefnyddio sylweddau, diweithdra a thrais yn y cartref.
- Mae dau ddarn o lenyddiaeth, o'r Unol Daleithiau, yn cyfeirio at brofiad cyn-filwyr (pobl â hanes o wasanaeth milwrol). Credir bod eu risg o ddigartrefedd yn ddwywaith risg pobl nad ydynt yn gyn-filwyr, a allai fod yn gysylltiedig ag ACEs yn cynyddu'r tebygolrwydd o brofi problemau iechyd meddwl a sefyllfaoedd llawn straen y deuir ar eu traws mewn gwasanaeth milwrol.
- Canfu un astudiaeth fod ACEs yn cynyddu'r tebygolrwydd o broblemau iechyd meddwl ymhlith unigolion sydd â hanes o wasanaeth milwrol (o'i gymharu â'r rheini heb hanes o wasanaeth milwrol). Fodd bynnag, canfu'r un astudiaeth fod hanes o wasanaeth milwrol yn diogelu unigolion yn rhannol yn erbyn y risg o ddigartrefedd.
- Ymchwiliodd un astudiaeth effaith *gyfryngol* problemau iechyd meddwl yn y berthynas rhwng ACEs a digartrefedd. Canfuwyd bod problemau iechyd meddwl yn effeithio'n *anuniongyrchol* ar y berthynas rhwng ACEs a digartrefedd. Fodd bynnag, parhaodd digartrefedd *yn sylweddol* ac *yn uniongyrchol* gysylltiedig â phrofiadau o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod.

## 5. Deinameg Teuluol

- Mae teuluoedd (oedolion â phlant) yn cynnwys is-set unigryw o'r boblogaeth ddigartref.
- Mae'r llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â theuluoedd yn deillio'n bennaf o'r Unol Daleithiau ac yn bennaf yn adlewyrchu profiadau menywod â phlant.
- Yn ôl y llenyddiaeth, mae teuluoedd yn cynnwys un o'r segmentau sy'n tyfu gyflymaf o'r boblogaeth ddigartref yn yr Unol Daleithiau. Mae bron i 90% o deuluoedd digartref wedi'i harwain gan fenywod.
- Roedd un astudiaeth yn cymharu'r gwahaniaethau rhwng oedolion digartref sy'n byw gyda phlant ac oedolion digartref nad ydynt yn byw gyda phlant. Canfu'r astudiaeth fod gan y ddau grŵp hanes ACE tebyg. Fodd bynnag, roedd oedolion digartref sy'n byw gyda phlant yn ymddangos yn fwy agored i niwed o ran elfennau cymdeithasol ac economaidd digartrefedd (tlodi, addysg annigonol, cyflogaeth wael).
- Mae'r llenyddiaeth yn nodi'r niferoedd uchel o brofiadau trawmatig (blaenorol a chyfredol) ym mywydau menywod digartref â phlant.
- Mewn un astudiaeth (yn cynnwys 60 o famau a 60 o blant y cyfeiriwyd at raglen ymyrraeth glinigol), soniodd 77% o'r mamau am hanes pedwar ACE neu fwy. Roedd gan 28% o'r

plant brofiad o bedwar neu fwy o brofiadau andwyol (fel y nodwyd gan eu mamau); er yn ystadegol is, mae'n parhau i fod yn arwyddocaol.

- Os na eir i'r afael â hyn, gall effaith ACEs barhau i'r genhedlaeth nesaf. O fewn y llenyddiaeth, cyfeirir at hyn fel cylch o brofiadau andwyol *rhwng cenedlaethau.*
- Disgrifiodd un astudiaeth fenter tai drosiannol, yn benodol ar gyfer teuluoedd digartref. Adroddodd llawer o'r rhieni hanesion o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod, yn ogystal â symptomau iselder cyfredol a lefelau uchel o straen rhianta. Ar nodyn cadarnhaol, cafodd tai trosiannol ei ddisgrifio'n aml gan y rhieni fel rhywbeth buddiol.
- Mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio at y gwydnwch a'r optimistiaeth a ddangosir gan lawer o rieni, er gwaethaf profiadau anffafriol blaenorol a chyfredol.
- Er mwyn cefnogi'r nodweddion cadarnhaol a ddangosir gan lawer o deuluoedd digartref, argymhellir ymyriadau sydd wedi'u llywio gan drawma a/neu wedi'u teilwra'n arbennig i ddiwallu anghenion unigryw y boblogaeth hon.

## ACEs fel ffactor risg ar gyfer digartrefedd: yr atebion

### Adfer a Gwydnwch

- O gofio canlyniadau hirdymor a niweidiol ACEs (y gall yr effeithiau gael eu gweld ar draws cenedlaethau), mae dealltwriaeth o'r ffordd orau o liniaru neu negyddu eu heffaith yn hanfodol.
- Mae angen ymyriadau ymarferol, sy'n cysylltu pobl â thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl a thai diogel.
- Caiff pwysigrwydd *ymyrraeth gynnar* ei bwysleisio trwy gydol y llenyddiaeth a adolygwyd.
- Mae ymyriadau wedi'u llywio gan ACE, wedi'u llywio gan drawma a sensitif i drawma (y mae pob un ohonynt yn debyg eu natur) yn cael eu hargymell.
- Mae dull wedi'i lywio gan drawma yn cynnwys: dysgu am drawma blaenorol/cyfredol a'i adnabod, deall ei effaith, ac yna teilwra gwasanaethau yn unol â hynny.
- Mae gwydnwch yn cyfeirio at rinweddau, cryfderau ac adnoddau sy'n gynhenid i unigolion, teuluoedd a chymunedau ac sydd ar gael iddynt. Mae unigolion gwydn 'yn derbyn realiti, yn rheoli profiadau andwyol ac yn gwthio trwy galedi er mwyn goresgyn rhwystrau'.
- Gall cefnogaeth ddigonol a rhaglenni priodol helpu i *adeiladu* gwydnwch yn erbyn effaith ACEs.
- Wrth gymhwyso fframwaith ACEs i ymyriadau gwasanaeth, mae'r un mor bwysig i gynnal ac atgyfnerthu sylw i'r cyd-destun cymdeithasol eang (tlodi, polisi cyhoeddus). Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r rhwystrau strwythurol a allai atal gwydnwch neu allu unigolyn i adfer rhag ACEs.
- Felly, gyda mwy o ymwybyddiaeth ac ymyriadau wedi'u targedu'n effeithiol, nid oes rhaid i effaith ACEs fod yn hirdymor neu'n barhaol.




**ISBN 978-1-910768-76-1**

© 2018. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymru

Public Health
Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BQ

Ffôn: 02920 227744

Dyluniad: Jenney Creative www.jenneycreative.co.uk